CBAC Addasiadau i gymwysterau UG a Safon Uwch yn haf 2022

Llyfryn pynciau

Fersiwn 4
Hydref 2022.

@CBAC_WJEC

WWW.CBAC.CO.UK

@CBACWJEC

CRYNODEB O NEWIDIADAU

Fersiwn	Disgrifiad	Rhif y dudalen
2	Mewnosod Atodiad A: Pwysoliadau Cymwysterau yn 2022	65-74
3	Ychwanegu Gwybodaeth Ymlaen Llaw sy'n rhoi ffocws i'r hyn y bydd arholiadau'r cymwysterau a nodir ar dudalen 4 yn ei gynnwys.	4,7,36,42,56,58
4	Ychwanegu Atodiad B, yn cynnwys casgliad o’r holl hysbysiadau Gwybodaeth Ymlaen Llaw TAG UG a Safon Uwch a gyhoeddwyd ar 30 Medi 2021.	77
	Ychwanegu Atodiad C, yn cynnwys casgliad o’r holl hysbysiadau Gwybodaeth Ymlaen Llaw TAG UG a Safon Uwch a gyhoeddwyd ar 30 Medi 2021.	97

© WJEC CBAC Ltd.

Addasiadau i bynciau UG a Safon Uwch yn haf 2022

Gan fod amharu mawr wedi bod ar addysgu a dysgu drwy gydol 2020 a 2021, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru ar 23 Mawrth 2021 y bydd TGAU, UG a Safon Uwch yn cael eu haddasu i'r dysgwyr hynny sy'n sefyll y cymwysterau hyn yn haf 2022. Bydd hyn yn digwydd er mwyn gwneud iawn am yr amser addysgu a dysgu a gollwyd a hwyluso'r canllawiau ymbellhau cymdeithasol presennol.

Yn ei ddogfen reoleiddiol, Gofynion ar gyfer Addasu Asesiadau ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol yn 2022, mae Cymwysterau Cymru wedi nodi egwyddorion clir (a ddyfynnir isod), i'w dilyn gennym wrth addasu'r TAG yn 2022. Bydd Cymwysterau Cymru yn monitro ein cydymffurfiaeth â'r gofynion hyn. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r addasiadau i'r pynciau TGAU unigol a gymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru i'w defnyddio gan ganolfannau yng Nghymru ac awdurdodaethau eraill, ac felly dylid ei darllen ar y cyd â dogfen Cymwysterau Cymru.

Cafodd yr addasiadau i bob pwnc eu llunio'n ofalus gan ddilyn egwyddorion Cymwysterau Cymru:

Egwyddor 1 – Rhaid i CBAC geisio sicrhau nad yw Dysgwyr yn cael mantais nac yn cael anfantais o gymharu â'u cyfoedion mewn awdurdodaethau eraill.

Egwyddor 2 – Rhaid i CBAC geisio sicrhau bod pob cymhwyster yn arwydd dibynadwy o'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a bennir yn y cymhwyster yn dilyn unrhyw Addasiadau i asesiadau.

Egwyddor 3 – Rhaid i CBAC geisio sicrhau nad yw cynnwys cymwysterau, yn gyffredinol, yn cael ei leihau; fodd bynnag, gellir ailstrwythuro cynnwys fel y gellir ei symleiddio'n rhesymol, megis mewn perthynas ag unedau dewisol.

Egwyddor 4 – Rhaid i CBAC geisio sicrhau bod Hydrinedd asesiad yn cael ei gynyddu i'r eithaf, lle bydd hyn yn caniatáu cynnydd yn yr amser addysgu er mwyn lleihau'r effaith ar ganlyniadau.

Egwyddor 5 – Rhaid i CBAC geisio cynnal safonau, cyn belled ag y bo modd, o fewn yr un cymhwyster yn unol â blynyddoedd blaenorol.

Egwyddor 6 – Rhaid i CBAC geisio cynnal safonau, cyn belled ag y bo modd, ar draws cymwysterau tebyg sydd ar gael gan CBAC a chan gyrff dyfarnu eraill.

Egwyddor 7 – Rhaid i CBAC geisio sicrhau bod hyblygrwydd wrth ddarparu asesiadau yn cael ei gynyddu i'r eithaf er mwyn lleihau effaith aflonyddwch, salwch neu gwarantin, gan gynnwys cyfyngiadau symud ar lefel leol.

Bydd amharu wedi bod i bob dysgwr sy'n sefyll cymwysterau TAG yn haf 2022 o ran eu haddysg rhwng Mawrth 2020 a diwedd blwyddyn academaidd 2020-2021. I lawer o ddysgwyr Safon Uwch ac UG, 2022 fydd y tro cyntaf iddynt sefyll arholiad cyhoeddus.

Ein man cychwyn ar gyfer y Safon Uwch felly, yn ogystal ag ystyried yr egwyddorion uchod, oedd adolygu'r addasiadau a ddatblygwyd ar gyfer haf 2021. Roedd angen ystyried hefyd p'un a oes angen newid yr addasiadau hyn ar gyfer dysgwyr sy'n sefyll ein cymwysterau yn haf 2022.

Cyfyngwyd yr addasiadau i'r UG yn 2021 i'r hyn a luniwyd fel y byddai modd i athrawon ddilyn y canllawiau ymbellhau cymdeithasol. Am y rhesymau uchod, felly, rydym wedi ailystyried y safbwynt hwn a byddwn yn rhoi addasiadau ychwanegol ar waith i wneud iawn am amser addysgu a dysgu a gollwyd ar gyfer dysgwyr UG i'w hasesu yn 2022. Bwriedir yr addasiadau hyn i gymryd ystyriaeth o'r ffaith bod y dysgwyr UG hynny sy'n dechrau ar eu rhaglen ddysgu ym mis Medi 2021 yn gwneud hynny yn dilyn amhariad sylweddol i'w hastudiaethau TGAU yn y ddwy flynedd academaidd flaenorol. Felly, bwriedir yr addasiadau i wneud iawn am effaith y golled addysgu a dysgu yn ystod cyfnod allweddol 4.

© WJEC CBAC Ltd.

Dilynwyd y tybiaethau a ganlyn gennym[1].

1. Bydd pob dysgwr wedi methu rhai cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth hanfodol, o ran gwaith ymarferol yn benodol nad oes modd ei gyflawni wrth weithio o bell. Ni allwn gymryd yn ganiataol, felly, y bydd yr un ehangder sgiliau a gwybodaeth gan y dysgwyr hynny sy'n sefyll eu hasesiadau yn haf 2022 ag y byddai disgwyl iddynt eu cael fel arfer.
2. Bydd ysgolion a cholegau ar agor ar gyfer addysgu wyneb yn wyneb am y rhan fwyaf neu'r cyfan o 2021-2022.
3. Lle bynnag y bo'n bosibl, dylai'r un addasiadau fod ar waith ar gyfer pob cymhwyster UG a Safon Uwch o ran yr asesiadau yn haf 2022.
4. Mae'n debygol y bydd arholiadau yn digwydd yn ôl yr arfer yn 2022 gydag addasiadau i'r cynnwys ac asesiadau hefyd lle y bo'n berthnasol gwneud hynny.
5. Mae'n debygol y bydd arholiadau yn digwydd yn ôl yr arfer yn 2023 heb unrhyw addasiadau i gynnwys na strwythurau'r manylebau.

Er ein bod wedi gweithio ar sail y tybiaethau uchod, rydym yn trafod cynlluniau wrth gefn â Cymwysterau Cymru. Caiff y rhain eu defnyddio os bydd angen[2].

Nid asesir dysgwyr Safon Uwch ar unedau UG yn 2022. Bydd eu gradd Safon Uwch yn seiliedig ar ganlyniadau'r unedau U2 yn unig[3]. Mae hyn felly'n cyfrif am ostyngiad o 40% yn yr asesiad ar draws y cymhwyster Safon Uwch llawn ar gyfer y sawl sy'n cyfnewid yn 2022.

Nod yr addasiadau i'r unedau UG yw symleiddio'r cynnwys i'w asesu yn yr UG yn 2022. Dewiswyd yr addasiadau hyn yn ofalus i wneud yn siŵr na fydd y dysgwyr hynny sy'n symud ymlaen i astudio unedau Safon Uwch o fis Medi 2022 dan anfantais os ydynt yn sefyll asesiadau U2 yn 2023 sydd heb unrhyw addasiadau.

Bwriad yr addasiadau i'r unedau U2 yw symleiddio'r cynnwys i'w asesu yn yr unedau U2 yn 2022, gan gadw'r asesiad llawn o 60% yn yr unedau U2, lle bynnag y bo'n bosibl gwneud hynny. Gwneir hyn oherwydd y gallai lleihau'r asesiad ymhellach beryglu uniondeb y cymhwyster a gellid ystyried ei fod yn llai trylwyr na chymwysterau cyfatebol mewn awdurdodaethau eraill. Bydd cadw'r asesiad U2 llawn o 60% yn sicrhau bod y cymwysterau Safon Uwch a ddyfernir i ddysgwyr yng Nghymru yn 2022, er eu bod yn seiliedig ar yr unedau U2 yn unig, yn ddilys, dibynadwy ac yn gallu cael eu cymharu â'r cymwysterau Safon Uwch a ddyfernir i ddysgwyr mewn awdurdodaethau eraill.

Ystyriwyd pob cymhwyster yn unigol er mwyn gallu llunio addasiad sy'n briodol i'r pwnc. Yn rhan o'r broses honno rydym wedi ystyried yn ofalus amrywiaeth eang o nodweddion dylunio'r TAG i'w darparu yng Nghymru, gan gynnwys p'un a yw'r cymhwyster yn cynnwys elfen o Asesu Di-arholiad ai peidio.

Gwneud addasiadau cymharol ar draws y gyfres o gymwysterau TAG fu ein nod. Nid yw'n bosibl gwneud yr addasiadau yr un fath, fodd bynnag, gan fod nodweddion dylunio'r TAG a gymeradwywyd i'w cyflwyno yng Nghymru yn amrywio, o ran cynnwys Asesiad Di-arholiad mewn cymhwyster neu asesiad drwy arholiad yn unig. Newidyn sylweddol arall yw p'un a yw manyleb yn un sy'n seiliedig ar wybodaeth neu'n seiliedig ar sgiliau.

---

[1] Tybiaethau a wnaed ar adeg yr arolwg yn haf 2021. Adolygir y rhain o dro i dro neu os bydd unrhyw wybodaeth newydd ar gael

[2] Credwn y bydd Cymwysterau Cymru yn cyhoeddi unrhyw drefniadau wrth gefn yn ystod tymor yr hydref 2021.

[3] Mae addasiadau arfaethedig pob cymhwyster yn cynnwys manylion pwysoli arferol pob uned; h.y. cyfraniad unedau UG i'r cymwysterau UG a Safon Uwch a chyfraniad unedau U2 i'r cymhwyster Safon Uwch. Gwneir hyn er mwyn gallu ystyried yr addasiadau mewn perthynas â chyfraniad cymharol pob uned. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, yn 2022 bydd graddau safon Uwch yn seiliedig ar ganlyniadau'r unedau U2 yn unig.

© WJEC CBAC Ltd.

Os yw cymhwyster yn cynnwys Asesiad Di-arholiad (a lle y mae'n briodol addasu'r Asesiad Di-arholiad hwnnw heb effeithio'n sylweddol ar y sgiliau dan sylw yn yr asesiad a thanseilio dilysrwydd y pwnc, neu ddibynadwyedd y cymhwyster, yn unol ag Egwyddor 2 Cymwysterau Cymru) ar y cyfan rydym wedi addasu tasgau i ystyried yr addysgu a dysgu a gollwyd. Yn yr amgylchiadau hyn, bwriedir yr addasiad i'r Asesiad Di-arholiad hefyd i wella hydrinedd a chynyddu'r amser addysgu, yn unol ag Egwyddor 4 Cymwysterau Cymru.

Os yw cymhwyster yn un sy'n seiliedig ar wybodaeth, rydym wedi rhoi gwybod ymlaen llaw beth fydd wedi'i gynnwys yn asesiadau haf 2022 neu ddim wedi'i gynnwys yn asesiadau haf 2022. Gall addasiad sy'n enwi rhestr o destunau **fydd ddim** yn cael eu hasesu yn 2022 ymddangos yn fwy nag addasiad sy'n rhoi gwybod ymlaen llaw pa destunau **fydd yn** destun asesiad yn 2022. Fodd bynnag, mae effaith pob dull addysgu a dysgu'n debyg a phob un fwy neu lai'n cyfateb i Egwyddor 3 Cymwysterau Cymru.

Bydd gwybodaeth ymlaen llaw sy'n rhoi ffocws i'r hyn y bydd arholiadau'r cymwysterau canlynol yn ei gynnwys yn cael ei rhyddhau ar 7 Chwefror 2022.

- UG TGCh Gymhwysol Uned 1
- UG Ffrangeg Uned 2
- UG Almaeneg Uned 2
- UG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant Uned 1
- UG Cerddoriaeth Uned 3
- UG Addysg Gorfforol Uned 1
- UG Sbaeneg Uned 2
- Safon Uwch Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant Uned 3 ac Uned 5
- Safon Uwch Addysg Gorfforol Uned 3

O gyfuno'r ddau, lluniwyd addasiadau pob cymhwyster i adlewyrchu pob un o saith Egwyddor Cymwysterau Cymru. Maent yn cynnig dulliau lliniaru sy'n cymharu'n fras ar draws yr holl gymwysterau UG a Safon Uwch er nad ydynt yn unfath.

Ymweliadau arholi a chymedroli (Addysg Gorfforol, Celf a Dylunio, Cerddoriaeth, Cymraeg Ail Iaith, Cymraeg Iaith, Drama a Theatr, Dylunio a Thechnoleg ac Ieithoedd Tramor Modern)

Oherwydd yr ansicrwydd presennol am gyfyngiadau ymbellhau cymdeithasol posibl yn y dyfodol, cynigiwyd yn yr ymgynghoriad y byddai pob pwnc a asesir drwy ymweliad arholwr neu gymedrolwr fel arfer yn cael ei asesu o bell yn 2022. Byddai'r trefniadau hyn yn amrywio o bwnc i bwnc. Mewn rhai pynciau, lle mae rhyngweithio rhwng yr arholwr a'r dysgwr, mewn asesiadau llafar Cymraeg ac ITM er enghraifft, cynigiwyd defnyddio llwyfan ar-lein i gynnal yr asesiadau hyn yn fyw.

O ran pynciau a asesir gan ganolfannau, cynigiwyd y byddai angen i'r ganolfan farcio a recordio'r asesiadau a llwytho sampl i fyny gan ddefnyddio ein llwyfan ar-lein. O ran pynciau y mae CBAC yn asesu'r gwaith ar eu cyfer fel arfer, byddai angen defnyddio ein llwyfan ar-lein i lwytho holl waith y dysgwyr i fyny i'w asesu. Fel y nodwyd isod, rydym wedi penderfynu ymgysylltu ymhellach â'r canolfannau am hyn ar ddechrau mis Medi. Cyfathrebir trefniadau asesu'r cymwysterau hyn erbyn diwedd mis Medi 2021.

© WJEC CBAC Ltd.

Ymgynghori

Ymgynghorodd CBAC â'r canolfannau rhwng 19 Mai a 23 Mehefin 2021 ynghylch addasiadau arfaethedig i'n TAG wedi'u cymeradwyo ar gyfer haf 2022. O ran yr addasiadau arfaethedig, gofynnwyd i'r canolfannau i ba raddau roeddent yn cytuno â'r hyn a ganlyn:

- mae'r cynnig yn briodol i wneud iawn am yr amser addysgu a dysgu a gollwyd
- mae'r cynnig yn helpu i leddfu materion yn ymwneud ag ymbellhau cymdeithasol ar gyfer gwaith ymarferol
- mae'r cymhwyster wedi'i addasu yn dal i fod yn fesur dilys a dibynadwy o gyflawniad dysgwyr yn y pwnc
- y bydd yr addasiadau arfaethedig yn caniatáu i ddysgwyr symud ymlaen i Safon Uwch / AU yn y pwnc

Fel arfer, mae rhai cymwysterau yn cael eu hasesu gan arholwr neu gymedrolwr sy'n ymweld. Mewn perthynas â'r cymwysterau hyn, gofynnwyd i ganolfannau i ba raddau roeddent yn cytuno â'r hyn a ganlyn:

- byddai cymedroli/arholi o bell yn caniatáu asesu dysgwyr yn gywir ac yn ddibynadwy yn y cymhwyster yn 2022
- bydd arholi/cymedroli o bell yn y cymhwyster yn hylaw i ganolfannau yn 2022

Yn olaf, roedd cyfle ar gael i ysgrifennu sylwadau am ein cynigion.

Derbyniwyd tua 460 o ymatebion i'r ymgynghoriad TAG, gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebion hyn yn dod oddi wrth athrawon pwnc/arweinwyr pwnc. Rydym yn ddiolchgar iawn i gydweithwyr yn y canolfannau wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Rydym wedi dadansoddi i ba raddau yr oeddech chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r gosodiadau ym mhob un o gwestiynau'r ymgynghoriad ac wedi darllen pob un o'r sylwadau.

Yn y ddogfen hon, rydym yn nodi pa addasiadau fydd ar waith i bob cymhwyster, gan gynnwys unrhyw newidiadau a wnaed sy'n adlewyrchu'r ymatebion i'n harolwg.

Ni fu'n bosibl mynd i'r afael â phob achos pryder a fynegwyd gan ganolfannau o ran yr amharu a fu i addysgu a dysgu neu drefniadau asesu ar gyfer 2022. Awgrymodd rhai o'r sylwadau drefniadau sydd y tu allan i gylch gorchwyl CBAC sy'n dibynnu ar bolisi llywodraeth a/neu benderfyniadau'r rheoleiddwyr.

Yn bennaf oll, rhaid i CBAC sicrhau uniondeb pob cymhwyster fel y gallwn ddyfarnu cymwysterau yn 2022 sy'n ddilys, yn gadarn ac yn gymesur â'r hyn a gymerir gan garfanau eraill. Bydd CBAC yn ystyried y materion hyn yn ofalus wrth bennu ffiniau graddau yn ystod proses ddyfarnu cyfres haf 2022.

Nid yw'r llyfryn hwn yn cynnwys y penderfyniad terfynol ynghylch defnyddio cymedroli/asesu o bell yn 2022 gan y penderfynwyd y byddwn yn ymgysylltu ymhellach â chanolfannau am hyn ar ddechrau mis Medi. Cyfathrebir trefniadau asesu'r cymwysterau hyn erbyn diwedd mis Medi 2021.

© WJEC CBAC Ltd.

Mynegai'r pynciau

- TGCh Gymhwysol
- TGCh
- Celf a Dylunio
- Bioleg/Cemeg/Ffiseg
- Busnes
- Cyfrifiadureg
- Dylunio a Thechnoleg
- Drama a Theatr
- Economeg
- Saesneg Iaith
- Saesneg Iaith a Llenyddiaeth
- Llenyddiaeth Saesneg
- Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg
- Daearyddiaeth
- Llywodraeth a Gwleidyddiaeth
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant
- Hanes
- Y Gyfraith
- Mathemateg a Mathemateg Bellach
- Astudio’r Cyfryngau
- Cerddoriaeth
- Addysg Gorfforol
- Seicoleg
- Astudiaethau Crefyddol
- Cymdeithaseg
- Cymraeg Iaith
- Cymraeg Ail Iaith

© WJEC CBAC Ltd.

TGCh Gymhwysol

UG

Uned 1: eFusnes Arholiad Ysgrifenedig 40% o'r cymhwyster UG 16% o'r Safon Uwch

Bydd gwybodaeth ymlaen llaw sy'n rhoi ffocws i'r hyn y bydd yr arholiad yn ei gynnwys yn cael ei rhyddhau ar 7 Chwefror 2022. Edrychwch ar y wybodaeth bellach ar dudalen haf 2022 y pwnc TAG TGCh Gymhwysol ar y wefan.

Uned 2: eSgiliau asesiad dan reolaeth seiliedig ar senario 60% o'r cymhwyster UG 24% o'r Safon Uwch

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Safon Uwch

Uned 3: eBroject Asesiad allanol wedi'i osod yn allanol (cymedroli mewnol) 24% o'r Safon Uwch

Cyhoeddir y senario cychwynnol ym mis Medi 2021 (i'w gwblhau yn haf 2022). Caiff y senario hwn ei drin fel gweithgaredd dosbarth cyfan 'dan arweiniad yr athro' yn hytrach nag iddo fod yn rhywbeth i'w gwblhau gan nifer o grwpiau bach. Ar y cyd bydd y dosbarth yn llunio model taenlen i ymdrin â'r senario dan sylw. Bydd yr holl ddysgwyr wedyn yn ei ddefnyddio wrth gwblhau'r gwaith unigol dan amodau rheoledig a ysgogir pan fydd y gofynion diwygiedig ar gael (yn y gwanwyn 2022).

Uned 4/5/6: eStiwdio, eGod, eDrafod asesiad dan reolaeth 36% o'r Safon Uwch

Does dim newidiadau i'r unedau dewisol hyn.

Sail resymegol

Fel arfer, yn Uned 3, defnyddir cyfnod o waith grŵp yn arwain at ddatblygu model taenlen sy'n ymdrin â'r senario cychwynnol. Rhyddheir y senario cychwynnol hwn yn wythnos gyntaf mis Medi fel arfer ac mae'n amlinellu set o ofynion i fod yn sail i'r model taenlen i'w lunio. Wedi hynny, bydd y grŵp yn gwneud y penderfyniadau a'r modelau taenlen yn cael eu llunio. Cofnodir y cyfarfodydd grŵp mewn cyfres o gofnodion a gymerir, ynghyd â'r model o daenlen gyflawn, i'r amgylchedd dan reolaeth. Yn y fan honno y bydd dysgwyr yn gweld y ddogfen 'Gofynion Diwygiedig' am y tro cyntaf.

Yn y ddogfen 'Gofynion Diwygiedig' (i'w rhyddhau yn y gwanwyn) mae gofyn i'r dysgwr gynllunio a chreu swyddogaethedd ychwanegol (heb ei weld o'r blaen). Pob unigolyn sy'n cwblhau'r newidiadau i'r model ei hun, yn ôl cyfarwyddyd y gofynion diwygiedig. Mae angen i bob dysgwr fod yn gwbl gyfarwydd â'r model o daenlen grŵp er mwyn gallu newid y swyddogaethedd. Mae'n ofynnol hefyd i ddysgwyr weithio fel rheolwr project ar eu gweithgareddau er mwyn gallu hwyluso'r newidiadau gofynnol erbyn y terfyn amser penodol.

Rhagwelir y bydd symud i ddull dosbarth cyfan dan arweiniad yr athro yn arbed cryn dipyn o amser. Mae'n debygol y sicrheir yr arbedion amser hyn yn bennaf drwy ddileu'r angen i fonitro a rheoli cyfres o grwpiau bach wrth ddatblygu'r modelau taenlen ac wrth baratoi ar gyfer yr asesiad unigol. I wneud hyn, bydd pob dysgwr yn cwblhau'r tasgau unigol gan ddefnyddio'r un model taenlen â gweddill y dosbarth. Dim ond am yr ymatebion unigol a gwblheir yn yr amgylchedd dan reolaeth y bydd marciau'n cael eu dyfarnu (yn ôl yr arfer) – ni fydd angen newid trefniadau'r amgylchedd dan reolaeth na'r tasgau a asesir. Gwneir newidiadau i'r ddogfen asesu a fydd yn cadarnhau'r newid hwn o'r dull grwpiau bach i'r dull dosbarth cyfan.

© WJEC CBAC Ltd.

Ni thynnir unrhyw gynnwys o'r uned ar sail y addasiad hwn. Fodd bynnag, mae dynamig y grŵp yn newid o fod yn un o grwpiau bach i grŵp (dosbarth cyfan) mwy. Ni ddylai hyn olygu bod llai o ddatblygu o ran sgiliau TGCh gan fod angen i ddysgwyr ymgysylltu'n llawn â'r broses o greu'r model cychwynnol o daenlen er mwyn gallu cyflawni'r asesiad unigol. Mae'n debyg y bydd rhai o'r gweithgareddau trefniadol yn llai, er enghraifft y creu cofnodion cyfarfod a'r profiad o weithio mewn grŵp bach.

Nid yw'r addasiad hwn yn newid lefel galw'r cymhwyster hwn – does dim newidiadau i'r tasgau a asesir nac i'r cynnwys.

Mae'n bosibl y bydd newid o grwpiau bach i un grŵp dosbarth yn helpu o ran yr ymbellhau cymdeithasol gan y gallai fod yn rhwyddach rheoli ystafell ddosbarth sydd wedi'i gosod ar gyfer dosbarth cyfan yn ddiogel nag y byddai cyfres o grwpiau llai.

© WJEC CBAC Ltd.

UG

Uned 1: Systemau Gwybodaeth
Arholiad ysgrifenedig 24% (60%) o'r cymhwyster

Tynnir Adran B o'r papur Uned 1 ac ni fydd gofyn i ddysgwyr lunio taenlen.

Uned 2: Tasg Cyflwyno Gwybodaeth
Asesiad Di-arholiad 16% (40%) o'r cymhwyster

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Safon Uwch
Uned 3: Y Defnydd o TGCh a'i Heffaith
Arholiad ysgrifenedig 36% o'r cymhwyster

Byddwn yn symleiddio cynnwys i'w asesu fel na fydd y meysydd cynnwys testun a ganlyn yn cael eu hasesu yn 2022, sy'n cyfateb i golli 10-15 ODA i gyd, ar draws y swyddogaethau gwahanol:

- 4.3.1 Rhwydweithiau **–** Dewis rhwydwaith ar gyfer cwmni, Topolegau rhwydwaith, Rhwydweithio diwifr
- 4.3.5 Polisïau Diogelwch TGCh – Atal camddefnydd damweiniol, Atal troseddau neu gamddefnydd bwriadol
- 4.3.9 Systemau Gwybodaeth Rheoli (MIS) – Nodweddion Systemau Gwybodaeth Rheoli effeithiol, Deall y llif gwybodaeth rhwng cydrannau allanol a mewnol Systemau Gwybodaeth Rheoli, Nodweddion Systemau Gwybodaeth Rheoli da
- 4.3.10 Cylchred Oes Datblygu Systemau – Dylunio'r System, Gweithredu'r System, Cynnal a Chadw'r System, Gwerthuso'r System.

Uned 4 Project Cronfa Ddata Berthynol
Asesiad Di-arholiad 24% o'r cymhwyster

Byddwn yn tynnu'r gofyniad i ddysgwyr gwblhau'r cam gwerthuso yn yr uned hon.

Sail resymegol

Er mwyn symleiddio UG TGCh, bydd yr elfen daenlen yn cael ei thynnu. Credwyd y byddai dulliau eraill gan gynnwys tynnu elfennau damcaniaethol yn effeithio ar ddilyniant i U2. Mae'r gwaith ymarferol U2 yn canolbwyntio ar gronfeydd data, ac oherwydd hynny ni fydd tynnu'r gofyniad i lunio taenlen (ac ateb cwestiynau am hynny) yn effeithio ar ddilyniant i U2 a hefyd bydd yn lleihau nifer yr ODA sy'n ofynnol.

Drwy symleiddio rhan leiaf o'r cynnwys i'w asesu yn 2022 ar lefel Safon Uwch fel hyn gall dysgwyr ymateb o hyd i'r cwestiynau synoptig ac mae'n caniatáu lleihau’r amser y mae ei angen i gyflwyno Uned 3. Yn ogystal, bydd yr addasiad ychwanegol a wnaed i Uned 4 yn lliniaru ymhellach yr addysgu a dysgu a gollwyd yn ystod blwyddyn gyntaf cwrs carfan 2022.

© WJEC CBAC Ltd.

Celf a Dylunio

UG Uned 1: Ymholiad Creadigol Personol Asesiad Di-arholiad
100% o'r cymhwyster UG / 40% o'r cymhwyster Safon Uwch
(Ar gyfer asesu Blwyddyn 12 yn haf 2022.)

Does dim newidiadau i gynnwys yr uned hon i'w asesu yn 2022 gan fod rheolaethau'n gyfyngedig. Hefyd, gellir cyflwyno'r uned hon dros gyfnod hir (Medi 2021 - Mai 2022) gan ddefnyddio dysgu/gwaith cyfunol.

U2
Uned 2: Ymchwiliad Personol Asesiad Di-arholiad 36% o'r cymhwyster

Does dim newidiadau i gynnwys yr uned hon i'w asesu yn 2022.

Uned 3: Aseiniad wedi'i osod yn allanol (Asesiad Di-arholiad) 24% o'r cymhwyster

Nid asesir yr uned hon yn 2022.

Sail resymegol

Penderfynwyd y byddem yn parhau i dynnu'r **Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol (Uned 3)** ar gyfer yr asesiad Safon Uwch (U2) yn haf 2022. Hon yw'r uned lai yn y cymhwyster ac nid yw dysgwyr i fod i gychwyn arni cyn 2022. Byddai'n rhesymol disgwyl i ddysgwyr gwblhau eu Hymchwiliad Unigol Uned 2 yn yr amser sydd ar gael o fis Medi 2021 i fis Mai 2022.

Lluniwyd yr addasiad hwn fel bod modd i ganolfannau addasu eu rhaglenni astudio yn unol ag unrhyw ganllawiau ymbellhau cymdeithasol sy'n ofynnol; i helpu i wneud iawn am unrhyw amhariadau posibl pellach yn y dyfodol; ac i leddfu unrhyw faterion o ran logisteg ac iechyd a diogelwch o ran y prawf ymarferol 15 awr o hyd ar gyfer yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol, y mae'n rhaid ei gyflawni dan amodau arholiad.

Mae rheolaethau Uned 2 yn rhai cyfyngedig, a gellir cyflwyno’r cynnwys dros gyfnod hirach o amser. Dim ond cynnig yr asesiad mwyaf dibynadwy y mae'r dewis i asesu Uned 2 gan mai hon yw'r uned fwy yn y cymhwyster U2. Defnyddir yr un Amcanion Asesu i'w mesur, gan roi'r dilysrwydd angenrheidiol felly, heb fod angen unrhyw newidiadau dros dro i safonau nac unrhyw newidiadau a allai fod yn rhai dryslyd.

Mae'r addasiad hwn yn cadw'r elfennau ysgrifennu estynedig a lluniadu'r Ymchwiliad Personol sy'n ofynnol gan AU. Mae hyn yn sicrhau felly y bydd dysgwyr yn gallu symud ymlaen o hyd i addysg uwch neu gyflogaeth.

O ran y cwestiwn yn holi a ddylid cyflwyno cymedroli o bell gan ddefnyddio tystiolaeth fideo/ffotograffig, penderfynwyd y byddem yn ymgysylltu ymhellach â'r canolfannau am hyn ar ddechrau mis Medi ac yn cyfathrebu'r trefniadau erbyn diwedd mis Medi.

© WJEC CBAC Ltd.

Bioleg/Cemeg/Ffiseg

Bioleg

UG Unedau 1 + 2: Arholiadau ysgrifenedig (100% o'r UG, 40% o'r Safon Uwch)

Dyma restr o'r gosodiadau o’r fanyleb fydd ddim yn cael eu hasesu yn yr arholiadau UG yn haf 2022.

UG Uned 1: Biocemeg Sylfaenol a Threfniadaeth Celloedd	
1.4	**Mae adweithiau biolegol yn cael eu rheoleiddio gan ensymau**
	(d) damcaniaeth ffit anwythol gan ddefnyddio lysosym
1.5	**Asidau niwclëig a'u swyddogaethau**
	GWAITH YMARFEROL PENODOL – Echdynnu DNA o ddeunydd byw mewn ffordd syml

UG Uned 2: Bioamrywiaeth a Ffisioleg Systemau’r Corff	
2.1	**Mae pob organeb yn perthyn i’w gilydd drwy eu hanes esblygiadol**
	(b) yr angen am ddosbarthu a’i natur betrus (ch) gwybod nodweddion nodweddiadol Teyrnasoedd: Procaryotae, Protoctista, Plantae, Fungi, Animalia (g) gellir asesu bioamrywiaeth mewn cynefin e.e. Indecs Amrywiaeth Simpson
	GWAITH YMARFEROL PENODOL – Ymchwilio i fioamrywiaeth mewn cynefin
2.2	**Addasiadau ar gyfer cyfnewid nwyon**
	(g) adeiledd deilen angiosberm (ng) rôl adeileddau dail er mwyn caniatáu i’r planhigyn ffotosyntheseiddio’n effeithiol (h) rôl y ddeilen fel organ cyfnewid nwyon, gan gynnwys agor a chau’r stomata
	GWAITH YMARFEROL PENODOL – Ymchwilio i niferoedd stomata mewn dail **GWAITH YMARFEROL PENODOL** – Gwneud lluniad gwyddonol o gynllun pŵer isel o sleid wedi'i pharatoi o doriad ardraws drwy ddeilen ddeugotyledon e.e. *Ligustrum* (prifet), gan gynnwys cyfrifo maint gwirioneddol a chwyddhad y lluniad
2.3	**Addasiadau ar gyfer cludiant**
	(g) amsugniad dŵr gan y gwreiddyn (ng) symudiad dŵr drwy’r gwreiddyn: llwybrau apoplast, symplast a gwagolaidd (h) adeiledd yr endodermis a'i rôl (ll) yr addasiadau mae rhai angiosbermau yn eu dangos: hydroffytau, seroffytau, gan gynnwys archwiliad sleid microsgop o foresg a lili’r dŵr
2.4	**Addasiadau ar gyfer maeth**
	(c) deall bod maethiad saprotroffig yn cynnwys secretu ensymau, treulio sylweddau bwyd yn allanol ac yna amsugno cynhyrchion y treuliad i'r organeb, e.e. ffyngi (d) maeth mewn organebau ungellog, e.e. Amoeba, amsugno gronynnau bwyd a threuliad yn digwydd yn fewngellol (dd) addasu organebau amlgellog ar gyfer maeth yn dangos lefelau cynyddol o addasiad o goludd tebyg i goden, diwahaniaeth, syml gydag un agoriad, e.e. Hydra, i goludd tiwb gydag agoriadau gwahanol ar gyfer amlyncu a charthu a rhannau arbenigol ar gyfer treulio sylweddau bwyd gwahanol Hydra, i goludd tiwb gydag agoriadau gwahanol ar gyfer amlyncu a charthu a rhannau arbenigol ar gyfer treulio sylweddau bwyd gwahanol (ff) addasiadau coluddion a deintiad llysysydd, yn arbennig anifeiliaid cnoi cil, i ddeiet cellwlos uchel ac addasiadau coluddion a deintiad cigysydd i ddeiet protein uchel, gan gynnwys edrych ar benglogau a deintiad llysysydd a chigysydd

© WJEC CBAC Ltd.

U2 Unedau 3 + 4: Arholiadau ysgrifenedig (50% o'r Safon Uwch)

Cwestiynau synoptig – ni fydd cynnwys UG nad yw'n cael ei ddatblygu nac yn ofynnol ar gyfer Unedau 3 a 4 yn cael ei asesu yn haf 2022.

Dyma restr o'r gosodiadau o'r fanyleb fydd ddim chwaith yn cael eu hasesu yn yr arholiadau U2 yn haf 2022.

U2 Uned 4: Amrywiad, Etifeddiad ac Opsiynau	
	Dewis un opsiwn o dri: A. Imiwnoleg a Chlefydau B. Anatomi Cyhyrsgerbydol Dynol C. Niwrofioleg ac Ymddygiad

U2 Uned 5: Arholiad Ymarferol (10% o'r Safon Uwch)

Bydd y Dasg Arbrofol a'r Dasg Dadansoddi Ymarferol yn cael eu hasesu yn 2022.

Cemeg

UG Unedau 1 + 2: Arholiadau ysgrifenedig (100% o'r UG, 40% o'r Safon Uwch)

Dyma restr o'r gosodiadau o'r fanyleb fydd ddim chwaith yn cael eu hasesu yn yr arholiadau UG yn haf 2022.

UG UNED 1: Iaith Cemeg, Adeiledd Mater ac Adweithiau Syml	
1.2	**Syniadau sylfaenol ynghylch atomau**
	(b) ymddygiad ymbelydredd α, ymbelydredd β a phelydriad γ mewn meysydd trydanol a meysydd magnetig a'u pŵer treiddio cymharol (ch) effeithiau andwyol bod yn agored i ymbelydredd ar gelloedd byw a'r defnydd o radioisotopau mewn nifer o gyd-destunau, yn eu plith mae maes iechyd, meddygaeth, dyddio radio, diwydiant a dadansoddi (ff) sbectrwm allyrru atomig atom hydrogen (ng) trefn egni cynyddol golau isgoch, gweladwy ac uwchfioled (h) arwyddocâd amledd terfan cydgyfeiriant cyfres Lyman a'i pherthynas ag egni ïoneiddiad yr atom hydrogen
1.3	**Cyfrifiadau cemegol**
	(b) egwyddorion y sbectromedr màs [mae ail ran y datganiad hwn yn aros]
1.6	**Y Tabl Cyfnodol**
	(i) adweithiau'r halogenau â metelau (m) y defnydd o ïonau clorin a fflworid wrth drin dŵr a'r materion iechyd a moesegol cysylltiedig
1.7	**Ecwilibria syml ac adweithiau asid–bas**
	(c) cysonyn ecwilibriwm (Kc) a chyfrifiadau sy'n cynnwys crynodiadau a roddir
	GWAITH YMARFEROL PENODOL – Titradiad dwbl, er enghraifft, dadansoddi cymysgedd o sodiwm hydrocsid a sodiwm carbonad

© WJEC CBAC Ltd.

UG UNED 2: Egni, Cyfradd a Chemeg Cyfansoddion Carbon	
2.1	**Thermocemeg**
	***GWAITH YMARFEROL PENODOL** - Darganfod enthalpi hylosgiad
2.5	**Hydrocarbonau**
	(g) yr amodau sy'n angenrheidiol ar gyfer hydrogeniad catalytig ethen a pherthnasedd yr adwaith hwn
2.6	**Halogenoalcanau**
	(d) halogenoalcanau fel hydoddyddion, anaesthetigion a rhewyddion a bod y defnydd ohonyn nhw yn cael ei reoleiddio'n gaeth oherwydd eu gwenwyndra neu effeithiau andwyol ar yr amgylchedd (dd) effeithiau amgylcheddol andwyol CFCau a pha mor berthnasol yw cryfderau bond cymharol bondiau C–H, C–F a C–Cl wrth benderfynu ar yr effaith maen nhw'n ei chael yn yr atmosffer uchaf
2.7	**Alcoholau ac asidau carbocsilig**
	(f) yr adwaith esteriad sy'n digwydd pan fydd asid carbocsilig yn adweithio gydag alcohol (ff) gwahanu drwy ddistyllu
	GWAITH YMARFEROL PENODOL – Paratoi ester a gwahanu drwy ddistyllu

U2 Unedau 3 + 4: Arholiadau ysgrifenedig (50% o'r Safon Uwch)

Cwestiynau synoptig – ni fydd cynnwys UG nad yw'n cael ei ddatblygu nac yn ofynnol ar gyfer Unedau 3 a 4 yn cael ei asesu yn haf 2022.

Dyma restr o'r gosodiadau o'r fanyleb fydd ddim chwaith yn cael eu hasesu yn yr arholiadau U2 yn haf 2022.

U2 Uned 3: Cemeg Ffisegol ac Anorganig	
3.1	**Rhydocs a photensial electrod safonol**
	(dd) egwyddorion y gell danwydd hydrogen a'i manteision ac anfanteision
3.2	**Adweithiau rhydocs**
	***GWAITH YMARFEROL PENODOL** – Amcangyfrif copr mewn halwynau copr(II)
3.3	**Cemeg y bloc *p***
	(ch) yr adeiledd a'r bondio yn Al_2Cl_6 a ffurfiant cyfansoddion cyfrannydd-derbynnydd fel $NH_3.BF_3$ (d) y bondio a'r adeiledd mewn adeileddau hecsagonal ac adeileddau ciwbig boron nitrid a sut mae'r rhain yn berthnasol i'w priodweddau a'r defnydd ohonyn nhw (ng) effaith gannu ac effaith facteriol Cl_2 a chlorad (I) (ClO^-) yn ganlyniad eu pŵer ocsidio
3.4	**Cemeg y metelau trosiannol bloc *d***
	(e) priodweddau catalytig o nifer o fetelau trosiannol a'u cyfansoddion; catalysis heterogenaidd o ganlyniad i arsugniad arwynebol a chatalysis homogenaidd o ganlyniad i gyflwr ocsidiad newidiol (f) nicel a haearn fel y catalyddion sy'n cael eu defnyddio mewn hydrogeniad alcenau a'r broses Haber yn ôl eu trefn (ff) fanadiwm(V) ocsid fel y catalydd sy'n cael ei ddefnyddio yn y broses gyffwrdd a bod manganîs (IV) ocsid yn gatalydd effeithiol ar gyfer dadelfennu hydrogen perocsid

© WJEC CBAC Ltd.

3.5	**Cineteg gemegol**
	(a) yr egwyddorion sy'n sail i fesur cyfradd adwaith drwy samplu a throchoeri
3.8	**Cysonion ecwilibriwm**
	***GWAITH YMARFEROL PENODOL** – Darganfod cysonyn ecwilibriwm, er enghraifft, ar gyfer yr ecwilibriwm sy'n cael ei sefydlu pan fydd ethanol yn adweithio gydag asid ethanöig

U2 Uned 4 – Cemeg Organig a Dadansoddi	
4.4	**Aldehydau a chetonau**
	(d) adwaith aldehydau a chetonau â 2,4-deunitroffenylhydrasin a sut mae'n cael ei ddefnyddio i brofi am grŵp carbonyl ac wrth adnabod aldehydau a chetonau penodol
4.7	**Asidau amino a phroteinau**
	(ch) ffurfiant polypeptidau a phroteinau (d) egwyddorion sylfaenol adeiledd proteinau cynradd, eilaidd a thrydyddol (dd) rhan hanfodol o broteinau mewn systemau byw, er enghraifft, fel ensymau
4.8	**Synthesis organig a dadansoddi**
	***GWAITH YMARFEROL PENODOL** – Synthesis mewn dau gam, yn cynnwys puro a darganfod tymheredd ymdoddi cynnyrch ***GWAITH YMARFEROL PENODOL** – Gwahanu drwy gromatograffaeth papur, yn cynnwys gwahanu dwy ffordd

*Gellir gosod cwestiynau ar y theori sy'n ymwneud â'r sesiynau ymarferol penodol hyn.

U2 Uned 5: Arholiad Ymarferol (10% o'r Safon Uwch)

Bydd y Dasg Arbrofol a'r Dasg Dulliau a Dadansoddi Ymarferol yn cael eu hasesu yn 2022.

Ffiseg

UG Unedau 1 + 2: Arholiadau ysgrifenedig (100% o'r UG, 40% o'r Safon Uwch)

Dyma restr o'r gosodiadau o'r fanyleb fydd ddim chwaith yn cael eu hasesu yn yr arholiadau UG yn haf 2022.

UG Uned 1: Mudiant, Egni a Mater	
1.5	**Solidau dan ddiriant**
	(dd) nodweddion graff grym-estyniad (neu ddiriant-straen) ar gyfer defnydd brau fel gwydr, i gynnwys • straen elastig a chadw at ddeddf Hooke hyd at y toriad • torri defnydd brau drwy ledaenu crac, effaith amherffeithiadau arwyneb ar ddiriant torri, a sut gall diriant torri gael ei gynyddu drwy leihau amherffeithiadau arwyneb (fel mewn ffibrau tenau) neu drwy roi arwyneb dan gywasgiad fel mewn gwydr gwydn neu goncrit wedi'i wasgu'n barod) (e) nodweddion graff grym-estyniad (neu ddiriant-straen) ar gyfer rwber, i gynnwys • cadw'n fras yn unig at ddeddf Hooke, modwlws Young isel a'r estyniad oherwydd sythu moleciwlau cadwyn yn erbyn gwrthwynebiad thermol • hysteresis
	GWAITH YMARFEROL PENODOL – Ymchwiliad i berthynas grym-estyniad rwber

© WJEC CBAC Ltd.

1.6	**Defnyddio pelydriad i ymchwilio i sêr**
	(d) ystyr seryddiaeth amldonfedd a'r ffaith fod astudio rhanbarth o'r gofod ar donfeddi gwahanol (egnïon ffotonau gwahanol) yn datgelu'r prosesau gwahanol wnaeth ddigwydd yno

UG Uned 2: Trydan a Golau	
2.2	**Gwrthiant**
	(ff) y syniad bod gwrthiant metelau yn amrywio bron yn llinol gyda thymheredd dros ystod eang (g) y syniad bod gwrthdrawiadau rhwng electronau rhydd ac ïonau mewn metelau fel rheol yn cynyddu egni dirgryniadau hap yr ïonau, ac felly mae tymheredd y metel yn cynyddu (ng) beth yw ystyr uwchddargludedd a thymheredd trosiannol uwchddargludol (h) y ffaith fod y rhan fwyaf o fetelau yn dangos uwchddargludedd, a bod ganddynt dymereddau trosiannol ychydig raddau'n uwch na sero absoliwt (–273°C) (i) mae tymereddau trosiannol uwch na berwbwynt nitrogen (–196°C) gan rai defnyddiau arbennig (uwchddargludyddion tymheredd uchel) (j) rhai ffyrdd o ddefnyddio uwchddargludyddion er enghraifft, sganwyr MRI a chyflymyddion gronynnau
	GWAITH YMARFEROL PENODOL – Ymchwilio i amrywiad gwrthiant gyda thymheredd ar gyfer gwifren fetel
2.7	**Ffotonau**
	(h) dangos diffreithiant electronau a bod gan ronynnau agwedd fel ton (i) defnyddio'r berthynas $p = \frac{h}{\lambda}$ ar gyfer gronynnau o fater a ffotonau (j) cyfrifo gwasgedd pelydriad ar arwyneb sy'n amsugno neu'n adlewyrchu ffotonau
	GWAITH YMARFEROL PENODOL – Darganfod h gan ddefnyddio LED
2.8	**Laserau**
	(dd) adeiledd laser nodweddiadol, h.y. cyfrwng mwyhau rhwng dau ddrych, y mae un ohonynt yn trawsyrru golau yn rhannol (e) manteision a defnyddiau laser lled-ddargludydd h.y. bach, rhad, llawer mwy effeithlon na mathau eraill o laser, a'i fod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer CD, DVD, telathrebu ayb.

U2 Unedau 3 + 4: Arholiadau ysgrifenedig (50% o'r Safon Uwch)

Cwestiynau synoptig – ni fydd cynnwys UG nad yw'n cael ei ddatblygu nac yn ofynnol ar gyfer Unedau 3 a 4 yn cael ei asesu yn haf 2022.

Dyma restr o'r gosodiadau o'r fanyleb fydd ddim chwaith yn cael eu hasesu yn yr arholiadau U2 yn haf 2022.

U2 Uned 4: Meysydd ac Opsiynau	
	Dewis 1 opsiwn o 4: A: Ceryntau eiledol B: Ffiseg feddygol C: Ffiseg chwaraeon Ch: Egni a'r amgylchedd

© WJEC CBAC Ltd.

U2 Uned 5: Arholiad Ymarferol (10% o'r Safon Uwch)

Bydd y Dasg Arbrofol a'r Dasg Dadansoddi Ymarferol yn cael eu hasesu yn 2022.

Sail resymegol

Rydym wedi symleiddio cynnwys yn yr unedau UG ac U2 er mwyn arbed cyfran o'r amser addysgu yn y flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn o'r cwrs Safon Uwch. Dewiswyd cynnwys yn yr unedau UG a fyddai'n effeithio leiaf ar ddilyniant i U2, a dewiswyd cynnwys yn yr unedau U2 sy'n debygol o effeithio leiaf ar ddilyniant i AU.

Efallai y bydd gan nifer o ddysgwyr fylchau o ran y cynnwys UG a addysgwyd iddynt ym Mlwyddyn 12. I wneud iawn am hyn, ni fydd y cwestiynau synoptig yn yr U2, unedau 3 a 4, yn defnyddio gwybodaeth UG nad yw'n cael ei datblygu nac yn ofynnol ar gyfer yr unedau U2.

Ystyriwyd p'un a allai fod yn briodol gweithredu un o'r trefniadau lliniaru a fwriadwyd yn wreiddiol ar gyfer 2021, sef tynnu'r dasg arbrofol a'r gofyniad i gwblhau gwaith ymarferol eu hunain. Ond, mae gwaith ymarferol yn rhan hollbwysig o'r cymwysterau TAG Gwyddoniaeth gan ei fod o gymorth mawr i broses ddysgu'r myfyrwyr, yn gwella'r ffordd maent yn ymgysylltu â'r pwnc ac yn hanfodol i symud ymlaen i AU. Am y rhesymau hyn, ac o dybio y bydd ysgolion a cholegau ar agor am y cyfan o 2021-2022 neu'r rhan fwyaf ohono, credwn ei bod yn bwysig i ni gadw gwaith ymarferol yn y cymwysterau hyn yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf. Felly, asesir y Dasg Arbrofol a'r Dasg Dadansoddi Ymarferol yn 2022 fel Uned 5.

I hwyluso adferiad yr asesiad Tasg Arbrofol yn haf 2022, byddwn yn rhoi'r mesurau canlynol ar waith ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf:

- rhyddhau'r dogfennau "Cyfarwyddiadau i athrawon" yn gynharach na'r arfer
- yn ôl yr arfer bydd y rhestr offer yn bresennol ar gyfer y Dasg Arbrofol ond byddwn yn rhoi gwybod ymlaen llaw pa faes (meysydd) testun a asesir yn y Dasg Dadansoddi Ymarferol hefyd
- Bydd yr holl arholiadau Uned 5 yn cael eu hamserlennu mor hwyr â phosibl er mwyn caniatáu cymaint o amser addysgu â phosibl cyn cynnal yr asesiadau.

Byddwn yn ymgysylltu ymhellach â'r athrawon i sicrhau bod y cynigion hyn yn addas i anghenion y canolfannau. Byddwn yn cadarnhau'r trefniadau terfynol ar gyfer Uned 5 ym mis Medi.

© WJEC CBAC Ltd.

Busnes

UG

Uned 1: Cyfleoedd Busnes Arholiad Ysgrifenedig 15% (37.5%) o'r cymhwyster

Cynnwys:

Byddwn yn symleiddio'r cynnwys i'w asesu fel na fydd y meysydd cynnwys testun canlynol yn cael eu hasesu yn 2022:

Cynlluniau busnes	Esbonio pwrpas a phrif gydrannau cynllun busnes Gwerthuso pwysigrwydd cynllun busnes
Marchnadoedd	Esbonio beth yw ystyr segmentiad y farchnad Esbonio sut mae marchnadoedd yn cael eu segmentu Gwerthuso pwysigrwydd ac effaith segmentu ar fusnes a'i gwsmeriaid
Lleoliad busnes	Esbonio'r ffactorau y mae angen eu hystyried wrth leoli busnes newydd Dadansoddi'r ffactorau hyn mewn perthynas ag anghenion y busnes Gwerthuso'r dewis o leoliadau gwahanol ar gyfer busnes newydd

Asesiad:

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

Uned 2: Swyddogaethau Busnes Arholiad Ysgrifenedig 25% (62.5%) o'r cymhwyster

Cynnwys:

Byddwn yn symleiddio'r cynnwys i'w asesu fel na fydd y meysydd cynnwys testun canlynol yn cael eu hasesu yn 2022:

Rhagolygon llif arian	Esbonio beth yw ystyr rhagolwg llif arian Llunio, cyfrifo a dehongli rhagolygon llif arian Gwerthuso effaith rhagolwg llif arian ar fusnes a'i randdeiliaid Esbonio achosion problemau llif arian Esbonio strategaethau y gallai busnes eu defnyddio i wella llif arian Gwerthuso strategaethau mae busnes yn eu defnyddio i wella problemau llif arian Esbonio buddion a chyfyngiadau rhagolygon llif arian
Recriwtio	Esbonio beth yw ystyr y broses recriwtio Esbonio beth yw ystyr recriwtio mewnol ac allanol Esbonio beth yw ystyr dadansoddiad swydd, disgrifiad swydd a manyleb person Gwerthuso dulliau priodol o ddethol mathau gwahanol o weithiwr ar gyfer mathau gwahanol o swyddi gan gynnwys cyfweliadau, treialon gwaith, profion, ymarferion dethol a chyfweliadau dros y ffôn Gwerthuso pwysigrwydd recriwtio i fusnes a'i randdeiliaid

© WJEC CBAC Ltd.

Arfarnu	Esbonio beth yw ystyr gwerthuso Esbonio dulliau gwerthuso gwahanol gan gynnwys asesiad gan swyddog uwch, asesiad cyfoedion, hunanasesiad ac adborth 360 gradd Deall sut mae'r busnes a'i weithwyr yn gallu elwa o gael trefn werthuso Gwerthuso pwysigrwydd ac effaith trefn werthuso i fusnes a'i randdeiliaid
Cynllunio trefniadaethol	Esbonio beth yw ystyr cynllunio trefniadaethol Deall beth yw ystyr awdurdod, cyfrifoldeb, cadwyn awdurdod, rhychwant rheoli, dirprwyo, hierarchaeth, canoli a datganoli, grymuso a dihaenu Esbonio nodweddion strwythurau trefniadaeth gwahanol gan gynnwys strwythurau hierarchaidd (tal a gwastad) a matrics Esbonio manteision ac anfanteision newidiadau mewn strwythurau trefniadaeth a dihaenu Gwerthuso'r dewis rhwng grymuso a rheoli'r gweithlu Gwerthuso priodoldeb strwythurau trefniadaeth gwahanol i fusnes a'i randdeiliaid
Cynhyrchu main	Esbonio beth yw ystyr cynhyrchu main Esbonio'r amrywiaeth o arferion cynhyrchu main sy'n cael eu defnyddio i leihau gwastraff a gwella cynhyrchedd gan gynnwys kaizen (parhau i wella), mewn union bryd, cynhyrchu celloedd a rheolaeth seiliedig ar amser Gwerthuso pwysigrwydd ac effaith cynhyrchu main i fusnesau a'u rhanddeiliaid
Prynu	Esbonio pwysigrwydd prynu a gweithio gyda chyflenwyr Esbonio beth yw ystyr rheoli stoc Deall pwysigrwydd rheoli stoc Esbonio dulliau rheoli stoc gan gynnwys dulliau traddodiadol o reoli stoc, dulliau mewn union bryd a dulliau cyfrifiadurol o reoli stoc Dehongli diagramau rheoli stoc ac esbonio'r prif gydrannau gan gynnwys lefel ailarchebu, amser arweiniol, stoc clustogi a lefel isaf stoc Gwerthuso'r pwysigrwydd ac effaith ar fusnesau a'u rhanddeiliaid o gael gormod o stoc neu fod yn brin o stoc

Asesiad:

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

© WJEC CBAC Ltd.

Safon Uwch

Uned 3: Dadansoddi Busnes a Strategaeth Fusnes Arholiad Ysgrifenedig 30% o'r cymhwyster

Cynnwys:

Byddwn yn symleiddio'r cynnwys i'w asesu fel na fydd y meysydd cynnwys testun canlynol yn cael eu hasesu yn 2022:

Elastigedd pris ac incwm y galw	Cyfrifo a dehongli elastigeddau pris ac incwm galw Dehongli gwerthoedd rhifiadol o elastigedd pris ac incwm galw Gwerthuso effaith newidiadau mewn pris ac incwm ar dderbyniadau busnes
Amrywiannau cyllideb	Esbonio beth yw ystyr amrywiant cyllideb Cyfrifo amrywiannau cyllideb Dadansoddi cyllidebau ac amrywiannau cyllideb Gwerthuso defnydd ac effaith cyllidebau ac amrywiannau cyllideb i fusnes a'i randdeiliaid
Fframwaith Pum Grym Porter	Cymhwyso fframwaith Pum Grym Porter at fusnes penodol
Rhesymoli	Esbonio beth yw ystyr rhesymoli Esbonio'r ffactorau sy’n effeithio ar benderfyniadau am resymoli Gwerthuso effaith y dewis o resymoli ar fusnes a'i randdeiliaid
Coed Penderfyniadau	Esbonio natur a phwrpas dadansoddiad coeden benderfyniadau, gan wneud sylw am fuddion a chyfyngiadau’r dechneg Llunio coed penderfyniadau, dehongli ac asesu’r canlyniadau Gwerthuso manteision ac anfanteision defnyddio coed penderfyniadau
Dadansoddiad llwybr critigol	Esbonio natur a phwrpas dadansoddiad llwybr critigol (CPA), gan wneud sylw am fuddion a chyfyngiadau’r dechneg Cwblhau diagramau CPA, dehongli a gwerthuso'r canlyniadau Gwerthuso manteision ac anfanteision defnyddio CPA
Gwerthuso buddsoddiad	Esbonio beth yw ystyr gwerthuso buddsoddiad Esbonio pwrpas gwerthuso buddsoddiad Cyfrifo a dehongli cyfnod ad-dalu buddsoddiad mewn blynyddoedd a misoedd Cyfrifo a dehongli cyfradd adenillion gyfartalog (ARR) buddsoddiad Defnyddio llif arian disgowntiedig (DCF) i gyfrifo a dehongli gwerth presennol net (NPV) buddsoddiad Gwerthuso manteision ac anfanteision dulliau gwerthuso buddsoddiad gwahanol i fusnes a'i randdeiliaid Gwerthuso dichonoleb opsiynau buddsoddi, gan ystyried ffactorau meintiol ac ansoddol, er mwyn gwneud argymhellion

Asesiad:

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

© WJEC CBAC Ltd.

Uned 4 Busnes mewn Byd sy'n Newid Arholiad ysgrifenedig 30% o'r cymhwyster

Cynnwys:

Byddwn yn symleiddio'r cynnwys i'w asesu fel na fydd y meysydd cynnwys testun canlynol yn cael eu hasesu yn 2022:

Yr Undeb Ewropeaidd	Esbonio natur a phwrpas yr Undeb Ewropeaidd (UE) a'r farchnad Ewropeaidd sengl Esbonio effaith y DU ar fusnesau yng Nghymru a gweddill y DU, gan gynnwys rhyddid i symud nwyddau, llafur a chyfalaf, deddfwriaeth, rheoliadau a safonau Gwerthuso effaith yr UE ar fusnesau a'u rhanddeiliaid Esbonio beth yw ystyr yr arian cyfred sengl Ewropeaidd (yr ewro) a pharth yr Ewro Esbonio costau a buddion yr arian cyfred sengl Ewropeaidd i fusnesau a'u rhanddeiliaid Gwerthuso'r effaith mae bod yn aelod o'r UE a pharth yr Ewro yn ei chael ar fusnesau yn y DU Gwerthuso'r effaith mae peidio â bod yn aelod o'r UE a pharth yr Ewro yn ei chael ar fusnesau yn y DU

Asesiad:

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

Sail resymegol

Mae angen mwyafrif y cynnwys yn Uned 1 er mwyn iddo weithredu fel sail ar gyfer deall y cynnwys diweddarach; dangosir y cynnwys fydd ddim yn cael ei asesu yn haf 2022 fel cynnwys sy'n gweithio'n annibynnol. Yn Uned 2 y mae'r rhan fwyaf o'r cynnwys ar gyfer yr UG ac mae'n cynnwys amrediad eang o gynnwys sy'n seiliedig ar y pedwar maes busnes gweithredol. Mae sawl agwedd ar y cynnwys yn gweithio'n annibynnol ac ni fyddai peidio ag addysgu'r rhain yn effeithio llawer ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n angenrheidiol i'r dysgwyr allu ateb cwestiynau synoptig. Cynnwys sy'n gweithio'n annibynnol yw'r cynnwys fydd ddim yn cael ei asesu yn haf 2022.

Dim ond un maes cynnwys annibynnol yn Uned 4 fydd yn cael dynnu o'r asesiad yn haf 2022. Uned gyfannol yn bennaf yw hon sy'n canolbwyntio ar gysylltu'r tair uned arall. Mae ei hangen fel y gall dysgwyr ateb y cwestiynau synoptig yn yr asesiad ac i gynnal lefel y galw ar gyfer y cymhwyster. Uned 3 yw'r uned yn y Safon Uwch lle mae'r holl gynnwys ac mae ynddi amrywiaeth eang o ddulliau dadansoddi busnes a strategaeth. Mae sawl agwedd ar y cynnwys yn gweithio'n annibynnol ac ni fyddai peidio ag addysgu'r rhain yn effeithio llawer ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n angenrheidiol i'r dysgwyr allu ateb cwestiynau synoptig. Cynnwys sy'n gweithio'n annibynnol yw'r cynnwys fydd ddim yn cael ei asesu yn haf 2022. Mae digon o gynnwys ar ôl i allu gwneud asesiad dilys a dibynadwy o'r sgiliau meintiol.

© WJEC CBAC Ltd.

Cyfrifiadureg

UG

Uned 1: Hanfodion Cyfrifiadureg
Arholiad ysgrifenedig 25% (62.5%) o'r cymhwyster

Byddwn yn symleiddio cynnwys i'w asesu fel nad yw'r meysydd cynnwys testun penodol a ganlyn (is-benawdau yn y golofn ar y chwith yn y fanyleb) yn cael eu hasesu yn 2022:

- 11. Dadansoddi systemau
- 17. Materion economaidd, moesol, moesegol a diwylliannol yn ymwneud â chyfrifiadureg

Uned 2: Rhaglennu Ymarferol i Ddatrys Problemau
Arholiad ar-sgrin 15% (37.5%) o'r cymhwyster

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Safon Uwch

Uned 3: Rhaglennu a Datblygu Systemau
Arholiad ysgrifenedig 20% o'r cymhwyster

Byddwn yn symleiddio cynnwys i'w asesu fel nad yw'r meysydd cynnwys testun penodol a ganlyn (is-benawdau yn y golofn ar y chwith yn y fanyleb) yn cael eu hasesu yn 2022:

- 6. Dylunio systemau
- 8. Llunio rhaglenni.

Uned 4 Saernïaeth Gyfrifiadurol, Data, Cyfathrebu a Rhaglenni
Arholiad ysgrifenedig 20% o'r cymhwyster

Byddwn yn symleiddio cynnwys i'w asesu fel nad yw'r meysydd cynnwys testun penodol a ganlyn (is-benawdau yn y golofn ar y chwith yn y fanyleb) yn cael eu hasesu yn 2022:

- 1. Caledwedd a chyfathrebu - Mewnbwn / allbwn, rhwydweithio
- 6. Y system weithredu – Rheoli cof a byffro, Trefnlennu
- 7. Yr angen am fathau gwahanol o systemau meddalwedd a'u priodoleddau **–** Systemau'n ymwneud â diogelwch, Systemau rheoli, Systemau arbenigo.

Uned 5 Rhaglennu Datrysiad i Broblem
Asesiad Di-arholiad 20% o'r cymhwyster

Byddwn yn tynnu'r gofyniad i ddysgwyr gwblhau:

- prototeip
- mireinio'r dyluniad ar ôl cynhyrchu prototeip
- profi datblygiadol.

Sail resymegol

Drwy symleiddio cynnwys na fydd yn cael ei asesu yn 2022 gall canolfannau wneud addasiadau oherwydd yr amser addysgu a dysgu a gollwyd o ganlyniad i bandemig Covid-19. Bydd pob papur arholiad yn cadw'r un strwythur â'r gyfres flaenorol felly bydd yn gyfarwydd i ddysgwyr sydd wedi gweld cyn-bapurau. Drwy symleiddio'r cynnwys i'w asesu yn 2022 gall dysgwyr ymateb o hyd i'r cwestiynau synoptig ac mae'n caniatáu lleihau’r cyfnod cyflwyno i’r un graddau ar gyfer yr holl arholiadau ysgrifenedig. Bydd yr addasiad ychwanegol a wnaed i Uned 5 mewn ymateb i'r ymgynghoriad yn lliniaru ymhellach yr addysgu a'r dysgu a gollwyd yn ystod blwyddyn gyntaf cwrs carfan 2022.

© WJEC CBAC Ltd.

Dylunio a Thechnoleg

Dylunio Peirianyddol
Ffasiwn a Thecstilau
Dylunio Cynnyrch

UG

Uned 1: Arholiad Ysgrifenedig: 50% (20%) o'r cymhwyster

Byddwn yn symleiddio cynnwys fel na fydd y testunau a ganlyn yn cael eu hasesu yn 2022.

Dylunio Peirianyddol		
2.1 Egwyddorion technegol craidd		
d)	Arferion gweithio diogel	Gweithio gyda defnyddiau, cydrannau, technolegau priodol, offer, prosesau ac adnoddau yn gywir, yn greadigol, yn arloesol ac yn ddychmygus i gyflawni cynhyrchion o ansawdd uchel sy'n cyd-fynd â'u manyleb. Arferion gweithio a chyfrifoldebau masnachol a'u defnydd mewn gwaith project. Asesu risg mewn pum cam (adnabod y perygl, pwy all gael eu niweidio a sut, gwerthuso'r risg posibl, cofnodi, adolygu os yw'r manylion yn newid). Darparu offer, hyfforddiant ac arwyddion.
2.3.1 Egwyddorion technegol manwl		
f)	Ffynonellau egni, storio egni, trawsyrru, a defnyddio egni	Manteision a chyfyngiadau gwahanol ffynonellau egni i gynnwys, tanwyddau ffosil, tanwyddau niwclear, solar, dwr a chynhyrchu gwynt. Defnyddio egni'n effeithlon mewn gweithgynhyrchu. Materion gwyrdd/amgylcheddol (goblygiadau'r oes ddiwydiannol/dechnolegol) Materion cynaliadwyedd – dylanwadu ar y dyfodol, rheoli adnoddau. Arbed egni, gan gynnwys materion ailgylchu/gwyrdd. Effaith costau egni ar y cynnyrch terfynol. Technoleg briodol.

Ffasiwn a Thecstilau		
2.1 Egwyddorion technegol craidd		
d)	Arferion gweithio diogel	Gweithio gyda defnyddiau, cydrannau, technolegau priodol, offer, prosesau ac adnoddau yn gywir, yn greadigol, yn arloesol ac yn ddychmygus i gyflawni cynhyrchion o ansawdd uchel sy'n cyd-fynd â'u manyleb. Arferion gweithio a chyfrifoldebau masnachol a'u defnydd mewn gwaith project. Asesu risg mewn pum cam (adnabod y perygl, pwy all gael eu niweidio a sut, gwerthuso'r risg posibl, cofnodi, adolygu os yw'r manylion yn newid). Darparu offer, hyfforddiant ac arwyddion.

© WJEC CBAC Ltd.

2.3.3 Egwyddorion technegol manwl		
g)	Sut y gellir defnyddio defnyddiau, ar wahân i ffibrau a ffabrigau, wrth ddylunio a datblygu tecstilau a ffasiwn	Cydrannau wedi'u prynu i mewn, defnyddiau electro-ddargludol, plastigion.
ng)	Amrywiaeth o gydrannau a'u priodoldeb ar gyfer amrywiaeth o gynhyrchion mewn perthynas â'r defnyddiwr terfynol, y ffabrigau a ddefnyddir, ac ystyriaethau dylunio	Argaeledd a defnydd o amrywiaeth eang o gydrannau a ffitiadau wedi'u prynu i mewn sy'n briodol i'r defnydd(iau) a'r cymhwysiad gan gynnwys cynhyrchion perthynol fel defnyddiau ysgrifennu, esgidiau, llyfrau nodiadau a phapur wal.

Dylunio Cynnyrch		
2.1 Egwyddorion technegol craidd		
d)	Arferion gweithio diogel	Gweithio gyda defnyddiau, cydrannau, technolegau priodol, offer, prosesau ac adnoddau yn gywir, yn greadigol, yn arloesol ac yn ddychmygus i gyflawni cynhyrchion o ansawdd uchel sy'n cyd-fynd â'u manyleb Arferion gweithio a chyfrifoldebau masnachol a'u defnydd mewn gwaith project. Asesu risg mewn pum cam (adnabod y perygl, pwy all gael eu niweidio a sut, gwerthuso'r risg posibl, cofnodi, adolygu os yw'r manylion yn newid) Darparu offer, hyfforddiant ac arwyddion.
2.3.5 Egwyddorion technegol manwl		
d)	Cymhwysiad defnyddiau clyfar a modern	Sut mae defnyddiau modern yn dylanwadu ar ddatblygiad cynhyrchion, gan gynnwys amrywiaeth o ddefnyddiau cyfansawdd, defnyddiau gweithredol (CLYFAR) sy'n newid eu siâp neu eu priodweddau mewn ymateb i wahanol symbyliadau, gan gynnwys aloion sy'n cofio siâp a pholymerau, defnyddiau electro-cromig a ffoto-cromig

Uned 2: Tasg dylunio a gwneud: 50% (20%) o'r cymhwyster

Byddwn yn derbyn model/brasfodel yn lle'r cynnyrch gorffenedig. Ffasiwn a Thecstilau – byddwn yn derbyn toile mewn calico neu mewn ffabrig priodol arall, gyda samplau i ddangos manylion llunio. Bydd hyn yn caniatáu i ganolfannau dreulio llawer llai o amser ar yr Asesiad Di-arholiad na'r hyn a awgrymir yn y fanyleb. Mae rhwydd hynt gan ddysgwyr i gyflwyno'r cynnyrch gorffenedig yn ôl yr arfer os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

© WJEC CBAC Ltd.

Safon Uwch

Uned 3: Arholiad ysgrifenedig 30% o'r cymhwyster

Byddwn yn symleiddio cynnwys fel na fydd y testunau a ganlyn yn cael eu hasesu yn 2022.

Dylunio Peirianyddol		
2.1 Egwyddorion technegol craidd		
d)	Arferion gweithio diogel	Gweithio gyda defnyddiau, cydrannau, technolegau priodol, offer, prosesau ac adnoddau yn gywir, yn greadigol, yn arloesol ac yn ddychmygus i gyflawni cynhyrchion o ansawdd uchel sy'n cyd-fynd â'u manyleb. Arferion gweithio a chyfrifoldebau masnachol a'u defnydd mewn gwaith project. Asesu risg mewn pum cam (adnabod y perygl, pwy all gael eu niweidio a sut, gwerthuso'r risg posibl, cofnodi, adolygu os yw'r manylion yn newid). Darparu offer, hyfforddiant ac arwyddion.
2.2 Egwyddorion technegol craidd		
b)	Y fframwaith rheoleiddiol a deddfwriaethol ar gyfer iechyd a diogelwch a'r effaith ar ddylunio a gwneud penderfyniadau.	Sut mae'r fframwaith rheoleiddiol a deddfwriaethol yn y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle yn nodi dyletswyddau gweithwyr a chyflogwyr mewn amgylcheddau gweithgynhyrchu, gan gynnwys: • Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) • Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol yn y Gwaith (PPE)
2.3.1 Egwyddorion technegol manwl		
f)	Ffynonellau egni, storio, trosglwyddo a defnyddio egni	Manteision a chyfyngiadau gwahanol ffynonellau egni i gynnwys, tanwyddau ffosil, tanwyddau niwclear, solar, dwr a chynhyrchu gwynt. Defnyddio egni'n effeithlon mewn gweithgynhyrchu. Materion gwyrdd/amgylcheddol (goblygiadau'r oes ddiwydiannol/dechnolegol) Materion cynaliadwyedd – dylanwadu ar y dyfodol, rheoli adnoddau. Arbed egni, gan gynnwys materion ailgylchu/gwyrdd. Effaith costau egni ar y cynnyrch terfynol. Technoleg briodol.

Ffasiwn a Thecstilau		
2.1 Egwyddorion technegol craidd		
d)	Arferion gweithio diogel	Gweithio gyda defnyddiau, cydrannau, technolegau priodol, offer, prosesau ac adnoddau yn gywir, yn greadigol, yn arloesol ac yn ddychmygus i gyflawni cynhyrchion o ansawdd uchel sy'n cyd-fynd â'u manyleb. Arferion gweithio a chyfrifoldebau masnachol a'u defnydd mewn gwaith project. Asesu risg mewn pum cam (adnabod y perygl, pwy all gael eu niweidio a sut, gwerthuso'r risg posibl, cofnodi, adolygu os yw'r manylion yn newid). Darparu offer, hyfforddiant ac arwyddion.

© WJEC CBAC Ltd.

2.2 Egwyddorion technegol craidd		
b)	Y fframwaith rheoleiddiol a deddfwriaethol ar gyfer iechyd a diogelwch a'r effaith ar ddylunio a gwneud penderfyniadau.	Sut mae'r fframwaith rheoleiddiol a deddfwriaethol yn y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle yn nodi dyletswyddau gweithwyr a chyflogwyr mewn amgylcheddau gweithgynhyrchu, gan gynnwys: • Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) • Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol yn y Gwaith (PPE)
2.3.3 Egwyddorion technegol manwl		
g)	Sut y gellir defnyddio defnyddiau, ar wahân i ffibrau a ffabrigau, wrth ddylunio a datblygu tecstilau a ffasiwn	Cydrannau wedi'u prynu i mewn, defnyddiau electro-ddargludol, plastigion.
k)	Amrywiaeth o gydrannau a'u priodoldeb ar gyfer amrywiaeth o gynhyrchion mewn perthynas â'r defnyddiwr terfynol, y ffabrigau a ddefnyddir, ac ystyriaethau dylunio	Argaeledd a defnydd o amrywiaeth eang o gydrannau a ffitiadau wedi'u prynu i mewn sy'n briodol i'r defnydd(iau) a'r cymhwysiad gan gynnwys cynhyrchion perthynol fel defnyddiau ysgrifennu, esgidiau, llyfrau nodiadau a phapur wal.

Dylunio Cynnyrch		
2.1 Egwyddorion technegol craidd		
d)	Arferion gweithio diogel	Gweithio gyda defnyddiau, cydrannau, technolegau priodol, offer, prosesau ac adnoddau yn gywir, yn greadigol, yn arloesol ac yn ddychmygus i gyflawni cynhyrchion o ansawdd uchel sy'n cyd-fynd â'u manyleb Arferion gweithio a chyfrifoldebau masnachol a'u defnydd mewn gwaith project. Asesu risg mewn pum cam (adnabod y perygl, pwy all gael eu niweidio a sut, gwerthuso'r risg posibl, cofnodi, adolygu os yw'r manylion yn newid) Darparu offer, hyfforddiant ac arwyddion.
2.2 Egwyddorion technegol craidd		
ch)	Dylunio ar gyfer gweithgynhyrchu, atgyweirio neu gynnal a chadw, ac oes cynnyrch	Datblygu briffiau a manylebau dylunio cychwynnol y gall fod angen ffocws penodol arnynt fel: gweithgynhyrchu, cynnal a chadw ac oes cynnyrch.
2.3.5 Egwyddorion technegol manwl		
d)	Cymhwysiad defnyddiau clyfar a modern	Sut mae defnyddiau modern yn dylanwadu ar ddatblygiad cynhyrchion, gan gynnwys amrywiaeth o ddefnyddiau cyfansawdd, defnyddiau gweithredol (CLYFAR) sy'n newid eu siâp neu eu priodweddau mewn ymateb i wahanol symbyliadau, gan gynnwys aloion sy'n cofio siâp a pholymerau, defnyddiau electro-cromig a ffoto-cromig

© WJEC CBAC Ltd.

Uned 4: Project dylunio a gwneud: 30% o'r cymhwyster

Byddwn yn derbyn model/brasfodel yn lle'r cynnyrch gorffenedig. Ffasiwn a Thecstilau – byddwn yn derbyn toile mewn calico neu mewn ffabrig priodol arall, gyda samplau i ddangos manylion llunio. Bydd hyn yn caniatáu i ganolfannau dreulio llawer llai o amser ar yr Asesiad Di-arholiad na'r hyn a awgrymir yn y fanyleb. Mae rhwydd hynt gan ddysgwyr i gyflwyno'r cynnyrch gorffenedig yn ôl yr arfer os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Sail resymegol

Mae gweithgareddau dylunio a gwneud yn un o nodweddion hanfodol y pwnc, ac yn agwedd y mae dysgwyr yn amlwg yn ei mwynhau ac yn llwyddo ynddi. Gall dysgwyr gyflawni agweddau ar eu gwaith ymchwil, dylunio a gwerthuso i ffwrdd o'r stiwdio/gweithdy dylunio a dylai hynny helpu i liniaru rhywfaint ar unrhyw faterion mynediad at adnoddau yn y ganolfan.

Am yr un rheswm, byddwn yn newid y disgwyliad i ddysgwyr gyflwyno cynnyrch/prototeip terfynol a chaniatáu iddynt gyflwyno model/brasfodel. Gall hyn ddigwydd mewn achosion lle gallai mynediad cyfyngedig at gyfarpar/cyfleusterau arbenigol fod wedi effeithio ar gynhyrchu cynnyrch/prototeip gorffenedig.

Yn ogystal â'r addasiadau i'r Asesiad Di-arholiad a nodwyd uchod, byddwn yn symleiddio cynnwys Uned 1 ac Uned 3 drwy nodi agweddau penodol ar y cynnwys pwnc fydd ddim yn cael eu hasesu yn haf 2022. Dewiswyd cynnwys Uned 1 er mwyn sicrhau nad yw'n effeithio ar ddilyniant dysgwyr sy'n bwriadu sefyll y cymhwyster Safon Uwch yn 2023.

O ran y cwestiwn yn holi a ddylid cyflwyno cymedroli o bell gan ddefnyddio tystiolaeth fideo/ffotograffig, penderfynwyd y byddem yn ymgysylltu ymhellach â'r canolfannau am hyn ar ddechrau mis Medi ac yn cyfathrebu'r trefniadau erbyn diwedd mis Medi.

© WJEC CBAC Ltd.

UG

Uned 1: Gweithdy Theatr 60% (24%) o'r cymhwyster

Yn 2022 bydd maint lleiaf grŵp yn parhau i fod yn un actor.

Bydd amseriadau'r uned hon yn 2022 fel a ganlyn:
Un actor: 2-4 munud
Dau actor: 3-10 munud
Tri actor: 5-12 munud
Pedwar actor: 7-14 munud
Pump actor: 9-16 munud.

Yn unol â lleihau'r isafswm amser perfformio, bydd y gofynion i'r dysgwyr dylunio yn cael eu lleihau hefyd. Mae isafswm nifer y ciwiau ar gyfer dylunwyr goleuo a sain yn mynd i lawr o wyth i bump. Lleihawyd y gofyniad lleiaf ar gyfer dylunwyr gwisgoedd o ddwy wisg, gwallt a cholur llawn i ddau gymeriad gwahanol i un wisg, gwallt a cholur llawn i un cymeriad. Mae'r gofynion i'r dylunwyr set yn aros yr un peth gan fod gofyn iddynt gynhyrchu un dyluniad yn unig.

Uned 2: Testun mewn Theatr 40% (16%) o'r cymhwyster

Byddwn yn rhoi gwybod ymlaen llaw beth fydd y darn arholiad ar gyfer cwestiynau *(a)* a *(b)(i)*. Bydd manylion y darnau estynedig ar gyfer pob un o'r chwe thestun yn cael eu rhyddhau i'r canolfannau ym mis Medi 2021, gyda darn llai i'w ddewis fel y darn penodol yn yr arholiad. Ar yr un pryd, byddem yn hysbysu ymlaen llaw beth fydd testun cwestiwn (*c*).

Safon Uwch

Uned 3: Testun ar Waith 36% o'r cymhwyster

Byddwn yn ailgyflwyno'r gofyniad i gael perfformiad wedi'i ddyfeisio a seiliedig ar destun ar gyfer yr uned hon yn 2022.

Caiff meintiau grwpiau eu lleihau i isafswm o un actor ar gyfer y darnau wedi'u dyfeisio a seiliedig ar destun.

Bydd amseriadau'r uned hon yn 2022 fel a ganlyn (pob perfformiad):
Un actor: 2-4 munud
Dau actor: 3-10 munud
Tri actor: 5-12 munud
Pedwar actor: 7-14 munud.

Gan fod isafswm yr amser perfformio ar gyfer y perfformiadau wedi'u dyfeisio a seiliedig ar destun wedi'i leihau, bydd y gofynion lleiaf i ddysgwyr dylunio yn cael eu lleihau hefyd. Mae'r nifer lleiaf o giwiau sy'n ddisgwyliedig gan ddylunwyr goleuo a sain yn mynd i lawr o wyth i bump ym mhob perfformiad. Mae'r gofynion lleiaf ar gyfer dylunwyr gwisgoedd yn mynd i lawr o ddwy wisg, gwallt a cholur llawn i ddau gymeriad gwahanol i un wisg, gwallt a cholur llawn i un cymeriad ym mhob perfformiad. Mae'r gofynion ar gyfer dylunwyr set yn aros yr un peth, dim ond un dyluniad i bob perfformiad y mae disgwyl iddynt ei gynhyrchu.

Mae amseroedd y perfformiad ar gyfer y perfformiadau wedi'u dyfeisio a seiliedig ar destun yn fyrrach felly awgrymir y bydd y cyfrif geiriau yn achos yr adroddiad proses a gwerthuso yn aros yn 2000 o eiriau, yn hytrach na 3000 o eiriau.

© WJEC CBAC Ltd.

Uned 4: Testun mewn Perfformiad 24% o'r cymhwyster

Byddwn yn rhoi gwybod ymlaen llaw pa ddarn fydd yn yr arholiad ar gyfer cwestiynau *(a) (i)* a *(b)* Adran A a'r darn arholiad/maes testun (fel y bo'n berthnasol) ar gyfer cwestiwn (i) Adran B. Bydd manylion y darnau estynedig ar gyfer pob un o'r chwe thestun yn cael eu rhyddhau i'r canolfannau ym mis Medi 2021, gyda darn llai i'w ddewis fel y darn penodol yn yr arholiad. Ar gyfer Adran B cwestiwn (i) darperir y maes testun hefyd os bydd y dysgwyr yn cael y rhyddid i ddewis eu darn(au) eu hunain.

Sail resymegol

Bydd caniatáu i ddysgwyr berfformio monologau yn golygu ei bod yn bosibl iddynt weithio'n unigol yn yr ystafell ddosbarth a gartref. Bydd canolfannau yn ei chael yn haws cydymffurfio â chanllawiau iechyd y cyhoedd o ran rhoi mesurau ymbellhau cymdeithasol ar waith os bydd angen a gall dysgwyr baratoi gwaith yn unigol heb ddibynnu ar eraill.

Mae lleihau'r isafswm amser ar gyfer perfformiadau grŵp yn Unedau 1 a 3 yn rhoi mwy o amser i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau perfformio/dylunio a'u hymwybyddiaeth o ymarferwyr/cwmniau theatr/arddulliau. Gallai hyn fod wedi'i gyfaddawdu oherwydd yr amser addysgu a dysgu a gollwyd a'r diffyg gwaith ymarferol/asesu oherwydd dysgu ar-lein a gofynion yn ymwneud â mesurau ymbellhau cymdeithasol yn 2020/21.

Ar draws pob cymhwyster, rydym yn ystyried cymedroli/arholi o bell yn 2022 yn hytrach na chynnal ymweliadau â chanolfannau. Os bydd y newid hwn yn cael ei roi ar waith, bydd canolfannau'n gallu pennu eu dyddiadau asesu eu hunain ar gyfer eu perfformiadau wedi'u dyfeisio a seiliedig ar destun, a bydd hynny'n golygu bod ganddynt hyblygrwydd o ran sut maent yn strwythuro'r gwaith ymarferol drwy gydol y flwyddyn.

Bydd CBAC yn parhau i fod yn hyblyg y flwyddyn nesaf o ran sut mae canolfannau'n dehongli rhai ymarferwyr/cwmnïau theatr/arddulliau pe byddai'r gofynion ymbellhau cymdeithasol yn parhau i fod ar waith. Yr hyn sy'n allweddol yw bod y canolfannau'n llwyddo i gyfleu ysbryd neu anian yr ymarferwr/cwmni o'u dewis yn eu perfformiadau.

Atgoffir canolfannau bod y cyfrifon geiriau sydd i'w gweld yn elfennau ysgrifenedig Uned 1 ac Uned 3 yn awgrymiadau yn unig. Ni fydd cosb os bydd mwy na'r hyn a awgrymir yn cael ei gyflwyno.

Bydd y newidiadau i arholiadau ysgrifenedig Uned 2 ac Uned 4 yn gwneud iawn am yr amser addysgu a dysgu a gollwyd a allai fod wedi effeithio'n negyddol ar allu dysgwyr i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae drama a theatr yn cael eu datblygu a'u perfformio a'r gallu i ddadansoddi a gwerthuso gwaith pobl eraill.

Atgoffir canolfannau hefyd, at ddibenion dadansoddi a gwerthuso perfformiad byw yn yr asesiad (AA4), y gall perfformiad byw gynnwys recordiadau neu ffrydio perfformiad byw.

O ran y cwestiwn yn holi a ddylid cyflwyno asesiad o bell yn lle ymweliadau gan arholwyr, penderfynwyd y byddem yn ymgysylltu ymhellach â'r canolfannau ynghylch hyn ar ddechrau Medi ac yn cyfathrebu'r trefniadau erbyn diwedd mis Medi.

© WJEC CBAC Ltd.

Economeg

UG

Uned 1: Cyflwyniad i Egwyddorion Economaidd Arholiad ysgrifenedig 15% (37.5%) o'r cymhwyster
Uned 2: Economeg ar Waith Arholiad ysgrifenedig 25% (62.5%) o'r cymhwyster

Cynnwys

Symleiddir y cynnwys fel nad asesir y meysydd a ganlyn yng nghynnwys y testun yn haf 2022.

Micro-economeg:

- Pennu cyflog
- Materion marchnadoedd llafur
- Deall nad yw asiantau economaidd, mewn gwirionedd, yn ymddwyn yn rhesymegol bob amser
- Grym monopoli, anghymesureddau gwybodaeth a bylchau mewn gwybodaeth, ac anghydraddoldeb incwm fel ffynonellau methiant y farchnad
- Trwyddedau llygredd masnachadwy fel dull o ymyriad llywodraeth
- Cysylltu polisïau'r llywodraeth â'r gostyngiad yn anghydraddoldeb incwm, er enghraifft, trethi esgynradd a'r system fudd-daliadau, sefydlogi pris a chynlluniau isafbris gwarantiedig mewn amaethyddiaeth a'r isafswm cyflog cenedlaethol.

Macro-economeg:

- Deall beth yw ystyr mynegrif cyfradd cyfnewid.

Asesu

Does dim newidiadau i strwythur asesu'r naill uned na'r llall.

Safon Uwch

Uned 3: Archwilio Ymddygiad Economaidd Arholiad ysgrifenedig 30% o'r cymhwyster
Uned 4: Gwerthuso Modelau a Pholisïau Economaidd Arholiad ysgrifenedig 30% o'r cymhwyster

Cynnwys

Symleiddir y cynnwys fel nad asesir y meysydd a ganlyn yng nghynnwys y testun yn haf 2022.

Micro-economeg:

- Oligopoli: damcaniaeth gemau ac ecwilibriwm Nash
- Monopoli: gwahaniaethu o ran pris
- Polisi cystadleuaeth
- Preifateiddio.

© WJEC CBAC Ltd.

Macro-economeg:

Cromlin Phillips y tymor hir

Sefydlogrwydd Ariannol

Economeg fyd-eang: Yr Undeb Ewropeaidd.

Asesu

Does dim newidiadau i strwythur asesu'r naill uned na'r llall.

Sail resymegol

Mae angen mwyafrif y cynnwys yn yr UG i weithredu fel sylfaen i ddeall y cynnwys diweddarach; mae hyn yn arbennig o wir yn achos macro-economeg, gan fod y fanyleb U2 yn cyfeirio'n ôl at y cynnwys UG. Cynnwys sy'n gweithio'n annibynnol yw'r holl gynnwys fydd ddim yn cael ei asesu yn haf 2022. Ystyrir na fydd y cynnwys hwn yn effeithio fawr ddim ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar ddysgwyr i ateb cwestiynau synoptig gan ei fod yn cynnwys cyfleoedd i gymhwyso cysyniadau yn fwy na dim. Hefyd, ailadroddir grym monopoli fel ffynhonnell o fethiant y farchnad a'i astudio'n fanylach yn y cwrs U2.

Ar gyfer U2, nodwyd testunau gwahaniaethu ar sail prisiau, damcaniaeth gemau/ecwilibriwm Nash, a chromlin Phillips y tymor hir fel testunau y gellid eu tynnu o'r asesiad yn haf 2022. Nodwyd agweddau eraill, sef preifateiddio, polisi cystadleuaeth, sefydlogrwydd ariannol a'r Undeb Ewropeaidd fel testunau sy'n gweithio'n annibynnol ac oherwydd hynny maent yn annhebygol o effeithio ar ddadansoddi synoptig ehangach. Felly tynnir y rhain hefyd o'r asesiad yn 2022.

Dewiswyd yr holl cynnwys yn ofalus er mwyn sicrhau bod y cymhwyster yn cadw lefel y galw ac yn cynnal uniondeb yr asesiad, ond yn lleihau'r cynnwys y mae angen ei asesu.

© WJEC CBAC Ltd.

Saesneg Iaith

Yr addasiadau i'r arholiadau UG ac U2 Saesneg Iaith yn 2022 yw rhoi gwybod i'r canolfannau ymlaen llaw beth fydd rhai o'r testunau i'w profi. Rhennir genre neu bwrpas rhai o'r testunau/tasgau â'r canolfannau ym mis Medi 2021:

UG Uned 1	Genre/pwrpas testunau Adran A heb eu gweld i'w dadansoddi (34% o'r cymhwyster UG) Genre/pwrpas testun heb ei weld Adran B i'w ddadansoddi: (16% o'r cymhwyster UG)
UG Uned 2	Genres ysgrifennu yr ymdrinnir â nhw yng nghwestiynau 1b a 2b (12.5% o'r cymhwyster UG)
U2 Uned 3	Genre/pwrpas testunau heb eu gweld i'w dadansoddi (33.3% o'r cymhwyster Safon Uwch)
U2 Uned 4	Genre/pwrpas trawsgrifiadau heb eu gweld i'w dadansoddi (16.6% o'r cymhwyster Safon Uwch) Genre Adran B tasg ysgrifennu creadigol (16.6% o'r cymhwyster Safon Uwch)

Yn yr UG a'r U2 bydd dysgwyr yn derbyn hysbysiad ymlaen llaw sy'n effeithio ar tua dwy ran o dair o'r asesiad cyfan.

Sail resymegol

Nid awgrymodd y naill na'r llall o'r ddau wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad ar y cynigion a awgrymwyd ar gyfer asesiadau TAG Saesneg Iaith yn 2022 unrhyw beth arall o ran addasu'r cymwysterau.

Felly, bwriad CBAC, wrth gynnig y wybodaeth hon ymlaen llaw, yw cefnogi athrawon a dysgwyr wrth iddynt baratoi ac adolygu ar gyfer arholiadau 2022 gan gynnal uniondeb a hyder y cyhoedd yn y cymwysterau ar yr un pryd. Drwy roi gwybod ymlaen llaw fel hyn byddai modd cadw'r dilyniant i'r astudiaeth U2 yn y pwnc hwn i'r dysgwyr UG. Byddai'n sicrhau ei fod yn ymarferol o hyd i ddysgwyr U2 allu symud ymlaen i addysg uwch. Pe byddai addasiadau tebyg yn weithredol mewn awdurdodaethau eraill yn 2022, byddai hyn yn helpu i sicrhau nad yw Dysgwyr yng Nghymru yn cael mantais nac anfantais o gymharu â'u cyfoedion mewn awdurdodaethau eraill.

Asesiadau synoptig o gwricwlwm sbiral yw'r UG a'r U2 heb lawer o gynnwys penodol. Oherwydd hynny, ni fyddai unrhyw addasiadau i dynnu cynnwys yn y naill gymhwyster neu'r llall yn effeithio rhyw lawer ar yr amser addysgu a byddent yn effeithio'n sylweddol ar y cyfleoedd sydd ar gael i'r dysgwyr i symud ymlaen; mae natur Saesneg Iaith a'r gofyn i ddefnyddio testunau heb eu gweld o'r blaen i ddadansoddi iaith yn cyfyngu ar y dewisiadau o ran addasiadau i dynnu cynnwys.

Gan y bydd yr amser addysgu a gollwyd hyd yn hyn yn effeithio yn y diwedd ar ddyfnder gwybodaeth y dysgwyr, bwriadwn gefnogi athrawon a dysgwyr drwy ddarparu gwybodaeth am genre neu bwrpas rhai o'r tasgau a asesir yn yr arholiadau UG ac U2 Haf 2022. Bydd yn bosibl wedyn canolbwyntio'r adolygu heb gyfaddawdu ar y ffaith nad yw'r asesiadau'n cael eu gweld ymlaen llaw.

Asesiadau seiliedig ar sgiliau yw'r unedau UG ac U2, yn bennaf holi data, dehongli, dadansoddi, gwerthuso, synthesis a myfyrio. Byddai unrhyw addasiad sy'n anelu at dynnu asesiad y sgiliau hyn mewn unrhyw ffordd yn effeithio'n andwyol ar yr ymdriniaeth â'r amcanion asesu ac yn effeithio ar y ffaith a yw'r cymwysterau'n ddibynadwy o ran dangos y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a fynegir yn y manylebau.

© WJEC CBAC Ltd.

Gan nad oes cynnwys penodol i'w astudio yn yr UG na'r Safon Uwch, byddai'r effaith ar ddilysrwydd y cymhwyster yn un negyddol pe byddai addasiadau'n cael eu gwneud i'r papurau cwestiynau. Drwy gynnig addasiad fel hyn, mae CBAC yn cydnabod y gallai rhoi gwybod ymlaen llaw fel hyn achosi'r risg y bydd dysgwyr yn ailadrodd deunydd a ddysgwyd yn flaenorol yn yr arholiad p'un a yw hynny'n addas i'r cwestiwn a osodwyd ai peidio; felly atgoffir canolfannau y defnyddir lefelau ymateb mewn bandiau i asesu'r unedau hyn. Gwobrwyir ymgeiswyr am gymhwyso eu gwybodaeth a dealltwriaeth ar sail y cwestiwn a osodwyd. Nid yw rhoi gwybod ymlaen llaw fel hyn yn caniatáu gwobrwyo ymatebion a baratowyd ymlaen llaw: ni fydd ymgeiswyr sy'n ailgynhyrchu gwybodaeth a ddysgwyd yn barod yn unig neu ddim yn dangos eu dealltwriaeth ar sail y cwestiwn gosod yn gallu cyrraedd y marciau yn y bandiau uwch.

Er y gellir ystyried bod swm y gefnogaeth a ddarperir gan y cynnig hwn yn sylweddol o'i ystyried o ran y cymhwyster cyfan, nid yw lefel y gefnogaeth mor helaeth ag a geir mewn rhai cymwysterau eraill lle mae'n bosibl lleihau neu samplu cynnwys heb effeithio ar gyfleoedd dilyniant na hyder y cyhoedd.

Roedd yr athrawon y trafodwyd â nhw mewn grŵp ffocws yn rhan o'r gwaith o ystyried yr addasiadau ar gyfer 2021 yn unfrydol y dylid cadw'r Asesiad Di-arholiad. Mae'n syml i ddysgwyr ymgymryd â gwaith ymchwil annibynnol o bell, os bydd angen.

© WJEC CBAC Ltd.

Saesneg Iaith a Llenyddiaeth

Yr addasiadau i'r arholiadau UG ac U2 Saesneg Iaith yn 2022 yw rhoi gwybod i'r canolfannau ymlaen llaw beth fydd rhai o'r agweddau ar yr asesiad UG ac U2 . Yn yr UG, bydd nifer y cerddi y mae'n ofynnol eu hastudio o'r *Flodeugerdd* y daw'r darn ohono ar gyfer Uned 1 yn cael ei leihau. Ar gyfer Uned 2, bydd syniad yn cael ei roi o'r testun y daw'r darn ohono ar gyfer Adran A. Yn yr U2, byddwn yn cyhoeddi syniad o'r adran o'r testun y daw'r darn ohono ar gyfer Adran A Uned 3. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu â chanolfannau ym mis Medi 2021.

Ar gyfer Uned 4, darperir un o'r tri darn heb eu gweld yn Adran A. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu â'r canolfannau tua chwech wythnos cyn dyddiad yr arholiad i weithio fel canolbwynt i'r gwaith adolygu.

UG Uned 1:	Yn Adran A, bydd llai o gerddi ar y rhestr (dwy ran o dair o'r *Flodeugerdd*) i seilio'r asesiad arnynt. (25% o'r cymhwyster UG).
UG Uned 2:	Yng nghwestiynau rhan (i) Adran A, byddwn yn rhoi syniad o ba rannau o'r testun (25% o'r testun cyfan) y daw'r darnau. (10.5% o'r cymhwyster UG).
U2 Uned 3:	yn Adran A, byddwn yn rhoi syniad o ran o'r testun (hyd at 265 o linellau a'r Act) (25% o'r testun cyfan) y daw'r darnau (hyd at 265 o linellau a'r Act) ohono (11% o'r cymhwyster U2).
U2 Uned 4:	yn Adran A, byddwn yn rhoi gwybod ymlaen llaw beth fydd y testun heb ei weld ar gyfer Iaith Lafar (16.6% o'r cymhwyster U2).
U2 Uned 5:	Dim addasiadau.

Yn yr UG, bydd dysgwyr yn derbyn hysbysiad ymlaen llaw sy'n effeithio ar tua un rhan o dair o'r asesiad cyfan.
Yn yr U2, bydd dysgwyr yn derbyn hysbysiad ymlaen llaw a fydd yn effeithio ar tua chwarter o'r asesiad cyfan.

Sail resymegol

Bwriad CBAC, wrth gynnig y wybodaeth hon ymlaen llaw, yw cefnogi athrawon a dysgwyr wrth iddynt baratoi ac adolygu ar gyfer arholiadau 2022 gan gynnal uniondeb a hyder y cyhoedd yn y cymwysterau ar yr un pryd. Drwy roi gwybod ymlaen llaw fel hyn byddai modd cadw'r dilyniant i'r astudiaeth U2 yn y pwnc hwn i'r dysgwyr UG. Byddai'n sicrhau ei fod yn ymarferol o hyd i ddysgwyr U2 allu symud ymlaen i addysg uwch. Pe byddai addasiadau tebyg yn weithredol mewn awdurdodaethau eraill yn 2022, byddai hyn yn helpu i sicrhau nad yw Dysgwyr yng Nghymru yn cael mantais nac anfantais o gymharu â'u cyfoedion mewn awdurdodaethau eraill.

Cymwysterau seiliedig ar sgiliau yw'r cymwysterau UG a Safon Uwch sy'n adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o destunau llafar ac ysgrifenedig o gyfnodau gwahanol, gan gynnwys chwe gwaith gosod dros ddwy flynedd yr astudiaeth. Gan y bydd yr amser addysgu a gollwyd hyd yn hyn yn effeithio yn y diwedd ar ddyfnder gwybodaeth dysgwyr a'r cyfleoedd i ymdrin â chynnwys cyfan y fanyleb, bwriadwn gefnogi athrawon a dysgwyr yn yr UG a'r U2.

Yn yr UG, bydd y *Flodeugerdd* i'w hastudio yn Uned 1 yn llai a bydd gwybodaeth ar gael am leoliad y darnau o'r testunau drama yn Uned 2. Bydd hyn yn caniatáu canolbwyntio ar yr adolygu heb gyfaddawdu natur yr asesiadau. Yn yr U2, bwriadwn gefnogi athrawon a dysgwyr drwy gynnig gwybodaeth am leoliad darnau o'r testunau Shakespeare yn Uned 3 a rhoi gwybod ymlaen llaw am ddarn heb ei weld yn Uned 4. Yn yr un modd â hysbysiad ymlaen llaw yn yr UG, bydd hyn yn caniatáu canolbwyntio ar yr adolygu heb gyfaddawdu natur yr asesiadau.

© WJEC CBAC Ltd.

Gydag addasiad fel hyn, mae CBAC yn cydnabod y gallai rhoi gwybod ymlaen llaw fel hyn ar gyfer yr unedau UG ac U2 achosi'r risg y bydd dysgwyr yn ailadrodd deunydd a ddysgwyd yn flaenorol yn yr arholiad p'un a yw hynny'n addas i'r cwestiwn a osodwyd ai peidio. Gallant hefyd ysgrifennu ymatebion anghytbwys i'r dasg gymharol yn Uned 4. Atgoffir canolfannau felly y defnyddir lefelau ymateb mewn bandiau i asesu'r unedau hyn. Gwobrwyir ymgeiswyr am gymhwyso eu gwybodaeth a dealltwriaeth ar sail y cwestiwn a osodwyd. Nid yw rhoi gwybod ymlaen llaw fel hyn yn caniatáu gwobrwyo ymatebion a baratowyd ymlaen llaw. Ni fydd ymgeiswyr sy'n ailgynhyrchu gwybodaeth a ddysgwyd yn barod yn unig neu ddim yn dangos eu dealltwriaeth ar sail y cwestiwn gosod yn gallu cyrraedd y marciau yn y bandiau uwch.

Ymateb cymysg a gafwyd i'r ymgynghoriad ar yr addasiad arfaethedig i'r Asesiad Di-arholiad. Barn y mwyafrif oedd bod yr Asesiad Di-arholiad yn werthfawr fel ffordd o baratoi ar gyfer Addysg Uwch a'i bod yn syml i ddysgwyr gyflawni'r astudiaeth annibynnol o bell, os bydd angen. Felly, rydym wedi tynnu'r addasiad arfaethedig o'r uned hon.

© WJEC CBAC Ltd.

Llenyddiaeth Saesneg

Yr addasiadau ar gyfer yr arholiadau UG ac U2 Llenyddiaeth Saesneg yn 2022 yw rhoi gwybod i'r canolfannau ymlaen llaw beth fydd y darnau/cerddi a ddefnyddir yn yr asesiad. Pan fo darn yn dod o destun neu gerdd yn cael ei henwi yn y cwestiwn, bydd yr adran o'r testun/rhestr osod o gerddi y cymerwyd darnau/cerddi ohonynt yn cael ei rhannu â chanolfannau ym mis Medi 2021:

UG Uned 1:	yn Adran A, adran o'r testun (25% o'r testun cyfan) y cymerwyd y darn ohono (8.5% o'r cymhwyster UG).
UG Uned 2:	yn Adran A, rhestr osod o gerddi ar gyfer pob casgliad a fydd yn cynnwys y gerdd a enwir yn y cwestiwn. (16.5% o'r cymhwyster UG).
U2 Uned 3:	yn Adran A, rhestr lai o gerddi (Donne/Blake/Rossetti) / nifer y llinellau (Chaucer/Milton) y bydd yr asesiad yn seiliedig arnynt. (4% o'r cymhwyster U2)
U2 Uned 4:	yn Adran A, syniad o'r act y daw'r darn ohono (12.5% o'r cymhwyster U2).
U2 Uned 5:	Dim addasiadau.

Yn yr UG, bydd dysgwyr yn derbyn hysbysiad ymlaen llaw sy'n effeithio ar tua chwarter o'r asesiad cyfan.
Yn yr U2, bydd dysgwyr yn derbyn hysbysiad ymlaen llaw a fydd yn effeithio tuag un rhan o chwech o'r asesiad cyfan.

Sail resymegol

Bwriad CBAC, wrth gynnig y wybodaeth hon ymlaen llaw, yw cefnogi athrawon a dysgwyr wrth iddynt baratoi ac adolygu ar gyfer arholiadau 2022 gan gynnal uniondeb a hyder y cyhoedd yn y cymwysterau ar yr un pryd. Drwy roi gwybod ymlaen llaw fel hyn byddai modd cadw'r dilyniant i'r astudiaeth U2 yn y pwnc hwn i'r dysgwyr UG. Byddai'n sicrhau ei fod yn ymarferol o hyd i ddysgwyr U2 allu symud ymlaen i addysg uwch. Pe byddai addasiadau tebyg yn weithredol mewn awdurdodaethau eraill yn 2022, byddai hyn yn helpu i sicrhau nad yw Dysgwyr yng Nghymru yn cael mantais nac anfantais o gymharu â'u cyfoedion mewn awdurdodaethau eraill.

Cymwysterau seiliedig ar sgiliau yw'r UG a'r U2 lle mae gofyn astudio testunau gosod yn fanwl. Ni ellir tynnu unrhyw gynnwys a byddai symleiddio manyleb y mae gweithiau gosod yn sylfaen i'w hastudiaeth yn cyfaddawdu'r cymwysterau. Oherwydd hynny, byddai unrhyw addasiadau i dynnu astudiaeth o destun cyfan yn y naill astudiaeth neu'r llall yn effeithio ar y cyfleoedd sydd ar gael i'r dysgwyr i symud ymlaen.

Gan y bydd yr amser addysgu a gollwyd hyd yn hyn yn effeithio yn y diwedd ar ddyfnder gwybodaeth y dysgwyr, bwriadwn gefnogi athrawon a dysgwyr drwy ddarparu gwybodaeth am leoliad darnau o destunau a darparu rhestr osod o gerddi lle'n berthnasol i ymgeiswyr. Bydd hyn yn caniatáu canolbwyntio ar yr adolygu heb gyfaddawdu natur yr asesiadau.

Drwy gynnig addasiad fel hyn, mae CBAC yn cydnabod y gallai rhoi gwybod ymlaen llaw fel hyn achosi'r risg y bydd dysgwyr yn ailadrodd deunydd a ddysgwyd yn flaenorol yn yr arholiad p'un a yw hynny'n addas i'r cwestiwn a osodwyd ai peidio. Atgoffir canolfannau felly y defnyddir lefelau ymateb mewn bandiau i asesu'r unedau hyn. Gwobrwyir ymgeiswyr am gymhwyso eu gwybodaeth a dealltwriaeth ar sail y cwestiwn a osodwyd. Nid yw rhoi gwybod ymlaen llaw fel hyn yn caniatáu gwobrwyo ymatebion a baratowyd ymlaen llaw. Ni fydd ymgeiswyr sy'n ailgynhyrchu gwybodaeth a ddysgwyd yn barod yn unig neu ddim yn dangos eu dealltwriaeth ar sail y cwestiwn gosod yn gallu cyrraedd y marciau yn y bandiau uwch.

Roedd yr athrawon y trafodwyd â nhw mewn grŵp ffocws yn rhan o'r gwaith o ystyried yr addasiadau ar gyfer 2021 yn unfrydol y dylid cadw'r Asesiad Di-arholiad. Mae'n syml i ddysgwyr ymgymryd â'r astudiaeth annibynnol o bell , os bydd angen.

© WJEC CBAC Ltd.

Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg

UG Uned 1 Siarad (Asesiad Di-arholiad) 30% (12%) o'r cymhwyster

Tynnu Tasg 1 (cerdyn dadl)

UG Uned 2 Gwrando, Darllen, Cyfieithu ac Ysgrifennu Beirniadol 70% (28%) o'r cymhwyster

Bydd gwybodaeth ymlaen llaw sy'n rhoi ffocws i'r hyn y bydd yr arholiad yn ei gynnwys yn cael ei rhyddhau ar 7 Chwefror 2022. Edrychwch ar y wybodaeth bellach ar dudalennau haf 2022 y pwnc ar y wefan.
TAG Ffrangeg
TAG Almaeneg
TAG Sbaeneg

U2 Uned 3 Siarad - Project Ymchwil Annibynnol (Asesiad Di-arholiad) 18% o'r cymhwyster

Yn nhermau cynnwys neu dasgau does dim newidiadau i'r uned hon. Fodd bynnag, bydd amseriad un o'r tasgau yn llai. Bydd amseriad y cyflwyniad yn aros yn ddau funud ond bydd amseriad y drafodaeth yn mynd i lawr o ddwy funud i 7-8 munud.

U2 Uned 4 Gwrando, Darllen a Chyfieithu 30% o'r cymhwyster

Nid asesir yr is-themâu canlynol yn uniongyrchol yn yr uned hon yn haf 2022:

- Ffrangeg **–** Ôl-effeithiau ar gyfer Ffrainc heddiw (Thema 4)
- Almaeneg **–** Cydlyniad cymdeithasol yn yr Almaen heddiw (Thema 4)
- Sbaeneg – Cyfoethogi Diwylliannol a Dathlu Gwahaniaeth (Thema 3).

U2 Uned 5 12% o'r cymhwyster

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Sail resymegol

Nod y sail resymegol hon yw egluro wrth athrawon, dysgwyr a rhanddeiliaid ehangach pam y dewiswyd yr addasiadau arfaethedig hyn ar gyfer cymwysterau TAG Ffrangeg / Almaeneg / Sbaeneg, yn unol ag egwyddorion a bennwyd gan Cymwysterau Cymru.

Asesiadau synoptig a seiliedig ar sgiliau yw'r cymwysterau UG a Safon Uwch. Byddai addasu asesiad y sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer y fanyleb hon mewn unrhyw ffordd yn effeithio'n andwyol ar yr ymdriniaeth â'r amcanion asesu.

Mae UG Uned 1 yn cynnwys dwy dasg sydd, gyda'i gilydd, yn asesu AA 1, 2, 3 a 4. I'w asesu yn 2022, bydd Tasg 1 (dadl) yn cael ei thynnu gan y bydd Tasg 2 (trafod) yn ymdrin â phob un o'r pedwar amcan asesu hyn. Mae Tasg 1 yn defnyddio Set A o gardiau na fydd bellach yn cael eu cynnwys i'w hasesu yn 2022. Fel yr ysgrifenwyd yn y Fanyleb, mae Set A y cardiau yn ymdrin â thema Deall y byd Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg ei iaith. Nid asesir hyn ar gyfer

Uned 1 yn 2022 yn unig.

Mae Uned 3 yn cynnwys dwy dasg; cyflwyno'r testun a ddewiswyd gan yr ymgeisydd ar gyfer y Project Ymchwil Annibynnol i'w ddilyn gan drafodaeth o'r testun a ddewiswyd gyda'r arholwr. Bydd amseriad y cyflwyniad yn aros ar ddau funud er mwyn sicrhau bod gan yr ymgeisydd ddigon o amser i gyflwyno'r testun o'i ddewis ac i roi digon o gyfle i'r arholwr lunio cwestiynau i arwain y drafodaeth i ddilyn. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd llai o amser i drafod yn ysgafnhau rhywfaint ar y baich i'r ymgeisydd a fydd yn rhyngweithio â'r arholwr siarad.

© WJEC CBAC Ltd.

Uned 4 yw'r unig uned lle mae asesiad manwl o sgiliau derbyngar dysgwyr o ran gwrando a darllen yn ogystal â sgiliau cyfieithu i iaith yr astudiaeth yn digwydd. Mae'r sgiliau a asesir yn Uned 4 yn hanfodol i ddysgwyr symud ymlaen i Addysg Uwch.

Fodd bynnag, yn yr U2, nid asesir yr is-themâu canlynol yn uniongyrchol yn haf 2022:

- Ffrangeg **–** Ôl-effeithiau ar gyfer Ffrainc heddiw (Thema 4)
- Almaeneg **–** Cydlyniad cymdeithasol yn yr Almaen heddiw (Thema 4)
- Sbaeneg – Cyfoethogi Diwylliannol a Dathlu Gwahaniaeth (Thema 3).

Dyma'r is-themâu y bwriadwyd eu tynnu o asesiad haf 2021. Roedd athrawon yn ymwybodol o hyn ar y pryd a chredwn eu bod yn debygol o fod wedi ymgorffori'r newid hwn yn rhan o'u cynllunio yn barod. Felly, mater doeth a chefnogol o athrawon fyddai eithrio'r un is-themâu o asesiad haf 2022. Bwriad y cynnig hwn yw lleddfu'r pwysau ar yr amser addysgu ar y lefel hon.

Uned 5 sy'n cynnig y cyfle i ddysgwyr fynegi eu hunain a dangos yn llawn eu gallu i ysgrifennu'n feirniadol a dadansoddol. Er yr asesir yr AA mewn mannau eraill yn y cymhwyster, dyma'r unig gyfle a gaiff dysgwyr i ysgrifennu'n helaeth yn iaith yr astudiaeth. Credai'r grŵp ffocws a gynullwyd yn 2020 fod hynny'n cefnogi dilyniant dysgwyr i Addysg Uwch. Yn wahanol i gymwysterau tebyg lle mae llenyddiaeth yn rhan o'r cynllun astudio, dim ond un gwaith a ddewisir gan ganolfannau o restr osod a astudir ar gyfer Ffrangeg / Almaeneg / Sbaeneg. Mae gofyn i ddysgwyr ateb un cwestiwn traethawd o ddewis o ddau ar y gwaith hwnnw. Nid yw'n bosibl lleihau'r gofynion astudio ar gyfer yr uned hon, gan fod dim ond un dasg lenyddol.

Bydd byrhau'r amser sydd ar gael ar gyfer y dasg drafod yn Uned 3 a chyfuno hynny ag addasiad Uned 4 yn lleddfu'r pwysau ar ddysgwyr ac ar yr amser addysgu a dysgu.

Rydym yn dra ymwybodol o'r angen i sicrhau nad oes unrhyw ddysgwr yn cael mantais nac anfantais oherwydd yr awdurdodaeth y mae’n sefyll ei gymhwyster ynddi; drwy wneud yr addasiad hwn mae'n cyfateb i gymwysterau cymharol mewn awdurdodaethau eraill ac yn golygu nad oes unrhyw gyfyngiad ar y llwybrau dilyniant sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru.

O ran y cwestiwn yn holi a ddylid cyflwyno asesiad o bell yn lle ymweliadau gan arholwyr, penderfynwyd y byddem yn ymgysylltu ymhellach â'r canolfannau ynghylch hyn ar ddechrau Medi ac yn cyfathrebu'r trefniadau erbyn diwedd mis Medi.

© WJEC CBAC Ltd.

Daearyddiaeth

UG

Uned 1: Tirweddau Newidiol, 60% (24%) o'r cymhwyster

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 2: Lleoedd Newidiol, 40% (16%) o'r cymhwyster

Adran A: Lleoedd Newidiol

Nid asesir y cynnwys isod yn Haf 2022:

- 2.1.7 Y broses ailfrandio a'r rhai sy'n rhan ohoni mewn lleoedd gwledig
- 2.1.8 Rheolaeth wledig a sialensiau parhad a newid
- 2.1.9 Y broses ailfrandio a'r rhai sy'n rhan ohoni mewn lleoedd trefol
- 2.1.10 Rheolaeth drefol a sialensiau parhad a newid.

Lle mae'r cynnwys hwn a dynnwyd yn cynnig cyd-destun i unrhyw brofiadau gwaith maes, gall canolfannau barhau â'r profiad yn ôl y bwriad ond dylent ddarparu unrhyw gyd-destun angenrheidiol i'r dysgwr.

Adran B: Ymchwiliad Gwaith Maes Ffisegol a Dynol

Gofynnir i ddysgwyr ymgymryd ag **o leiaf un** profiad gwaith maes wrth baratoi ar gyfer yr arholiad. Gall hwn fod yn brofiad yng nghyd-destun daearyddiaeth ffisegol **neu** ddynol (neu gall fod yng nghyd-destun cwestiynau a materion pobl-amgylchedd). Rhaid i'r profiad gwaith maes hwn roi i'r dysgwyr y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n ofynnol gan eu cymhwyso at chwe chyfnod y broses ymholi yn ôl yr amlinelliad yn Adran 2a y fanyleb.

Yng Nghwestiwn 4 a Chwestiwn 5, bydd dysgwyr yn gallu ateb y ddau gwestiwn ar un profiad gwaith maes, os bydd angen gwneud hynny.

Does dim newidiadau i'r gofyniad i ymdrin â sgiliau daearyddol fel y'i nodir yn Atodiad A y fanyleb.

Safon Uwch

Uned 3: Systemau Byd-eang a Llywodraethu Byd-eang, 24% o'r cymhwyster

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 4: Themâu Cyfoes mewn Daearyddiaeth, 16% o'r cymhwyster

Adran A: Peryglon Tectonig

Does dim newidiadau i'r rhan hon o'r asesiad.

Adran B: Themâu Cyfoes mewn Daearyddiaeth

Bydd addasu'n digwydd i'r asesiad a bydd angen ymdrin ag **un** thema ddewisol yn unig. Bydd gofyn i ddysgwyr gwblhau dau o dri thraethawd dewisol o'r un thema o'u dewis.

Uned 5: Ymchwiliad Annibynnol (Asesiad Di-arholiad), 20% o'r cymhwyster

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

Ni fydd CBAC yn gofyn i ganolfannau gyflwyno'r datganiad gwaith maes 4 diwrnod yn 2022. Ond, i baratoi dysgwyr i gwblhau eu Hasesiad Di-arholiad, rydym yn dal i annog y canolfannau i gynnwys elfennau o waith maes yn y rhaglen astudio lle bynnag y bo'n bosibl ac yn ymarferol gwneud hynny.

© WJEC CBAC Ltd.

Sail resymegol

Oherwydd bod natur synoptig i ddaearyddiaeth fel pwnc, ac i'r asesiadau hyn, mae ymdriniaeth â'r cynnwys craidd a dewisol ar lefel UG yn parhau i fod yn hanfodol o ran integreiddio'r cysyniadau arbenigol gofynnol, y sgiliau daearyddol a'r sgiliau gwaith maes sydd eu hangen i baratoi dysgwyr ar gyfer yr asesiadau unedau UG ac U2. Yn ogystal, gall tynnu rhannau sylweddol o'r cynnwys gyfaddawdu'r cyfle y dylid ei roi i ddysgwyr i ddewis teitl Ymchwiliad Annibynnol ar sail dealltwriaeth eang o'r fanyleb.

Fodd bynnag, mae CBAC yn deall y pwysau a'r sialensiau cynyddol y bydd dysgwyr UG 2021/22 yn eu hwynebu ac felly bydd cynnwys Uned 2 sydd i'w asesu yn 2022 yn cael ei symleiddio. Mae dysgwyr yn parhau i gael y cyfle i ddatblygu eu dealltwriaeth o'u 'cartref' a mannau 'gwrthgyferbyniol' ac i astudio newid economaidd ac effeithiau cymdeithasol hynny ar amrywiol raddfeydd. Gall canolfannau ddewis parhau i edrych ar elfennau o'r cynnwys a dynnwyd yn rhan o'r rhaglen gwaith maes os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Mae'r Ymchwiliad Annibynnol (Asesiad Di-arholiad) yn rhan annatod o Safon Uwch Daearyddiaeth. Oherwydd yr amser addysgu sy'n ofynnol i gyflwyno'r sgiliau angenrheidiol i gwblhau'r Asesiad Di-arholiad, bydd symleiddio un thema ddewisol o Adran B, Uned 4 yn gwneud y mwyaf o'r amser addysgu o fis Medi. Gellir felly cwrdd â gofynion Uned 3, Adran A yn Uned 4 (a addysgir ar draws yr UG ac U2) a'r Asesiad Di-arholiad. Terfyn amser cyflwyno samplau i'w cymedroli fydd 15 Mai 2022.

Dylai canolfannau a dysgwyr ganolbwyntio ar ddatblygu teitlau Ymchwiliad Annibynnol priodol ac ymarferol a fydd yn caniatáu iddynt gasglu data cynradd yn ddiogel ac yn amserol. Dylai athrawon reoli disgwyliadau'r dysgwyr yn ofalus o ran casglu data er mwyn sicrhau bod y dewis o deitl ar gyfer yr ymchwiliad a'r fethodoleg sy'n deillio o hynny yn briodol ac yn hylaw dan yr amgylchiadau presennol.

Mae CBAC yn dra ymwybodol bod angen sicrhau nad oes unrhyw ddysgwr yn cael mantais nac yn cael anfantais oherwydd yr awdurdodaeth y mae'n sefyll ei gymhwyster ynddi. O ran UG a Safon Uwch mae ein cynigion yn sicrhau bod asesiadau dysgwyr yn gyffelyb â'r rhai a gymerwyd gan ddysgwyr mewn cyfresi blaenorol ac mewn awdurdodaethau gwahanol a ddim yn cyfaddawdu dilyniant i addysg uwch.

© WJEC CBAC Ltd.

Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

UG

Nid asesir y cynnwys canlynol yn 2022.

Uned 1 Llywodraeth yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, 50% (20%) o'r cymhwyster:

Yn 1.1.3 Cyfansoddiad Prydain mewn cyd-destun byd-eang, tynnu *'NATO'* o **Statudau cyfansoddiadol allweddol a chytuniadau sy'n llywodraethu perthynas y DU â chyrff rhyngwladol (gan gynnwys yr UE, NATO a'r Cenhedloedd Unedig).* Felly, byddai'r pwynt bwled hwn yn darllen **Statudau cyfansoddiadol allweddol a chytuniadau sy'n llywodraethu perthynas y DU â chyrff rhyngwladol (gan gynnwys yr UE a'r Cenhedloedd Unedig).*

Yn 1.2.1 Sut mae llywodraeth yn gweithio yn y DU, **Rôl y Gwasanaeth Sifil.*

Yn 1.3.3 Effaith datganoli ar y DU, tynnu *'gan gynnwys rolau a phwerau gwahanol Senedd a Llywodraeth yr Alban; Senedd a Llywodraeth Cymru; Cynulliad a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, yn ogystal â datganoli yn Lloegr*'. Felly, bydd y pwynt bwled hwn yn darllen **Effaith datganoli ar y DU.*

Uned 2 Byw a chymryd rhan mewn democratiaeth, 50% (20%) o'r cymhwyster:

Yn 2.1.1. Dinasyddiaeth mewn democratiaeth, ail bwynt bwled tynnu *'Rhyddid, cydraddoldeb, cyfranogiad a dinasyddiaeth weithgar, Rheolaeth y Gyfraith'.* Felly, byddai'r pwynt bwled hwn yn darllen **Amddiffyniad o dan y gyfraith; hawliau lleiafrifoedd; gwahaniaethu cadarnhaol*.

Yn 2.2.1 Pwysigrwydd cyfranogiad mewn democratiaeth ac effeithiau diffyg cyfranogiad, **Esboniadau o ran pam mae rhai pobl/grwpiau mewn cymdeithas yn cyfranogi mwy nag eraill; dadleuon ynghylch effeithiau hyn*.

Yn 2.3.1 Pleidiau gwleidyddol a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth. **Rolau a phwysigrwydd aelodau pleidiau.*

Yn 2.3.3 Mudiadau cymdeithasol a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth, **Natur fyd-eang rhai mudiadau cymdeithasol.*

Safon Uwch

Bydd cynnwys y fanyleb yn cael ei symleiddio; felly, **nid** asesir y cynnwys a ganlyn yn 2022.

Uned 3 Cysyniadau a damcaniaethau gwleidyddol, 30% o'r cymhwyster:

Yn 3.1.2 Safbwyntiau Rhyddfrydol, **Effaith syniadau rhyddfrydol ar wleidyddiaeth fyd-eang.*

Yn 3.2.2 Safbwyntiau Ceidwadol, **Effaith syniadau ceidwadol ar wleidyddiaeth fyd-eang.*

Yn 3.3.2 Safbwyntiau Sosialaidd, **Effaith syniadau sosialaidd ar wleidyddiaeth fyd-eang.*

Yn 3.4.2 Safbwyntiau Cenedlaetholgar, **Effaith syniadau cenedlaetholgar ar wleidyddiaeth fyd-eang.*

© WJEC CBAC Ltd.

Uned 4 Llywodraeth a gwleidyddiaeth UDA, 30% o'r cymhwyster:

Yn 4.1.3 Y Bil Hawliau, tynnu *'y gosb eithaf' o *Dadleuon cyfoes ynghylch hawliau sifil a rhyddid sifil yn UDA: perchenogaeth gynnau; y gosb eithaf a phreifatrwydd*. Felly, byddai'r pwynt bwled hwn yn darllen **Dadleuon cyfoes ynghylch hawliau sifil a rhyddid sifil yn UDA: perchenogaeth gynnau a phreifatrwydd.*

Yn 4.2.2 Arlywydd UDA gartref a thramor, **Dadleuon ynghylch grym a dylanwad cymharol y Cabinet a Swyddfa Weithredol yr Arlywydd.*

Yn 4.2.3 Llys Goruchaf UDA, **Effaith achosion nodedig Marbury vs Madison (1803) a McCulloch vs Maryland (1819).*

Yn 4.3.3 Pleidiau gwleidyddol yn UDA, **Rhesymau pam mae dwy blaid yn gryfach; arwyddocâd pleidiau trydyddol ac ymgeiswyr annibynnol.*

Sail resymegol

Yn yr UG a'r Safon Uwch, yn ein barn ni symleiddio'r cynnwys yw'r addasiad mwyaf priodol. Yn nhermau'r oriau dysgu dan arweiniad i'w harbed mae'n debyg, ystyrir bod rhannu'r cynnwys wedi'i symleiddio yn deg ar gyfer Uned 1 ac Uned 2 yn yr UG, ac Uned 3 ac Uned 4 yn y Safon Uwch.

Yn Uned 3, er na fydd asesiad ffurfiol yn digwydd o effaith rhyddfrydiaeth, ceidwadaeth, sosialaeth a chenedlaetholdeb ar wleidyddiaeth fyd-eang, byddai'n dderbyniol o hyd i ddefnyddio enghreifftiau o wleidyddiaeth fyd-eang i egluro'r ideolegau hyn yn rhannau eraill cynnwys Uned 3. Ni fydd symleiddio'r cynnwys hwn ychwaith yn atal dysgwyr rhag ymateb i'r cwestiynau synoptig yn naill ai Uned 3 neu Uned 4.

Mae'r addasiadau UG a Safon Uwch hyn yn cynnal lefel y galw yn y cymhwyster ac yn caniatáu i ddysgwyr symud ymlaen i addysg uwch.

© WJEC CBAC Ltd.

UG

UG Uned 1: (50% / 20%) Arholiad

Bydd gwybodaeth ymlaen llaw sy'n rhoi ffocws i'r hyn y bydd yr arholiad yn ei gynnwys yn cael ei rhyddhau ar 7 Chwefror 2022. Edrychwch ar y wybodaeth bellach ar dudalen y pwnc TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant ar y wefan.

UG Uned 2: (50% / 20%) Asesiad Di-arholiad

Tasg 1 – Does dim newidiadau i'r dasg hon.

Bydd Tasg 2 yn cael ei haddasu gyda rhan (dd) yn cael ei thynnu, sy'n golygu bod llai o amser asesu i lawr o'r 20 awr a argymhellir i 15 awr.

Safon Uwch

U2 Llwybr Gofal Plant

U2 Uned 3: (30%) Arholiad

Bydd gwybodaeth ymlaen llaw sy'n rhoi ffocws i'r hyn y bydd yr arholiad yn ei gynnwys yn cael ei rhyddhau ar 7 Chwefror 2022. Edrychwch ar y wybodaeth bellach ar dudalen y pwnc TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant ar y wefan.

U2 Uned 4: (30%) Asesiad Di-arholiad

Bydd Tasg 1 yn cael ei haddasu fel bod tasg b (ii) yn cael ei thynnu. Mae'r adran hon o'r asesiad yn ymdrin ag adran 2.4.1 (b) o'r fanyleb, ac mae'n AA2. Asesir AA2 mewn mannau eraill yn y dasg, ac ymdrinnir â 2.4.1(b) hefyd yn nhasg b(i).

Hefyd, bydd tasg d (i) yn cael ei thynnu. Mae'r adran hon o'r asesiad yn ymdrin ag adran 2.4.1 (c) ac mae'n AA1. Asesir AA1 mewn man arall yn y dasg, ac mae 2.4.1(c) hefyd yn cael ei drafod yn nhasg d (ii).

Gyda'i gilydd, bydd tynnu'r ddwy adran hon yn arwain at leihau'r cyfnod gwneud tasgau arfaethedig o 5 awr o Dasg 1, gan leihau Tasg 1 i 15 awr.

U2 Llwybr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion

U2 Uned 5: (30%) Arholiad

Bydd gwybodaeth ymlaen llaw sy'n rhoi ffocws i'r hyn y bydd yr arholiad yn ei gynnwys yn cael ei rhyddhau ar 7 Chwefror 2022. Edrychwch ar y wybodaeth bellach ar dudalen y pwnc TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant ar y wefan.

U2 Uned 6: (30%) Asesiad Di-arholiad

Bydd Tasg 1 yn cael ei haddasu fel bod tasg b (ii) yn cael ei thynnu. Mae'r adran hon o'r asesiad yn ymdrin ag adran 2.6.1 (c) o'r fanyleb, ac mae'n AA2. Asesir AA2 mewn man arall yn y dasg, ac mae 2.6.1(c) hefyd yn cael ei drafod yn nhasg b(i).

Hefyd, bydd tasg d (i) yn cael ei thynnu. Mae'r adran hon o'r asesiad yn ymdrin ag adran 2.6.1 (c) ac mae'n AA1. Asesir AA1 mewn man arall yn y dasg, ac mae 2.6.1(c) hefyd yn cael ei drafod yn nhasg d (ii).

Gyda'i gilydd, byddai tynnu'r ddwy adran hon yn arwain at leihau'r cyfnod gwneud tasgau arfaethedig o 5 awr o Dasg 1, gan leihau Tasg 1 i 15 awr.

Sail resymegol

© WJEC CBAC Ltd.

Gan y bydd yr amser addysgu a gollwyd hyd yn hyn yn effeithio yn y diwedd ar ddyfnder gwybodaeth y dysgwyr, bwriadwn gefnogi athrawon drwy leihau baich y cynnwys ac osgoi effeithio ar ddilyniant gan na chollir unrhyw sgiliau sy'n gysylltiedig â'r cymhwyster.

Mae'r llwybrau Gofal Plant ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar lefel U2 yn cyfateb i'w gilydd, felly byddwn yn rhoi addasiadau ar waith sy'n dilyn yr un patrwm er mwyn sicrhau bod y dewisiadau'n gyfartal.

© WJEC CBAC Ltd.

Hanes

UG

Uned 1: Astudiaeth o Gyfnod (50% 20%)

Nid arholir y cysyniadau a'r cysyniadau canlynol o bob opsiwn **yn 2022**[4]. Argymhellwn eich bod – lle bynnag y bo'n bosibl gwneud hynny – yn ymdrin â'r adrannau hyn fel bod gan y dysgwyr ddealltwriaeth resymegol o'r cyfnod. Fodd bynnag, ni fydd angen addysgu a dysgu'r adrannau yn y dyfnder arferol, ac ni fydd angen eu cynnwys yn y deunyddiau i'w hadolygu ychwaith.

Uned 1.1 – Llywodraeth, gwrthryfel a chymdeithas yng Nghymru a Lloegr, tua 1485–1603	
Cysyniadau a safbwyntiau	**Materion allweddol a chynnwys**
Y newid yn y berthynas rhwng Cymru a Lloegr ar ôl 1530	• Y rhesymau dros Ddeddfau Uno 1536 a 1543, ac effaith y rhain ar Gymru a Lloegr • Gwaith ac effaith Cyngor Cymru a'r Gororau • Effaith newid cymdeithasol yng Nghymru ar ei pherthynas â Lloegr • Effaith polisi crefyddol ar Gymru, gan gynnwys cyfieithu’r Ysgrythurau i’r Gymraeg

Uned 1.2 – Llywodraeth, chwyldro a chymdeithas yng Nghymru a Lloegr, tua 1603–1715	
Cysyniadau a safbwyntiau	**Materion allweddol a chynnwys**
Effaith y Rhyfel Cartref ar y genedl	• Y rhesymau dros ddechrau'r rhyfel cartref erbyn 1642 • Effaith y Rhyfel Cartref ar fywydau pobl yng Nghymru a Lloegr • Y rhesymau dros fuddugoliaeth y Senedd yn y Rhyfel Cartref • Y rhesymau dros y Teyrnladdiad, a'i bwysigrwydd

Uned 1.3 – Gwleidyddiaeth, protest a diwygio yng Nghymru a Lloegr, tua 1780–1880	
Cysyniadau a safbwyntiau	**Materion allweddol a chynnwys**
Y pwysau cynyddol am ddiwygio seneddol 1780–1832	• Ymdrechion cynnar i ddiwygio'r Senedd yn y 1780au • Sialens y Chwyldro Ffrengig ar ôl 1789 • Y prif resymau dros alw am ddiwygio'r Senedd • Arwyddocâd argyfwng y Ddeddf Ddiwygio 1830–1832

Uned 1.4 – Gwleidyddiaeth, pobl a chynnydd: Cymru a Lloegr, tua 1880-1980	
Cysyniadau a safbwyntiau	**Materion allweddol a chynnwys**
Y newid yn safle'r pleidiau gwleidyddol 1880–1951	• Y newidiadau yn hynt y Blaid Ryddfrydol yng Nghymru a Lloegr yn y cyfnod hwn • Y newid yn safle'r Blaid Geidwadol yng Nghymru a Lloegr yn ystod y cyfnod hwn • Twf y Blaid Lafur yng Nghymru a Lloegr yn ystod y cyfnod hwn • Llwyddiant llywodraethau clymblaid: yn ystod y rhyfel ac yn y 1930au

[4] Yn Astudiaeth o Gyfnod Uned 1, mae dysgwyr yn dewis astudio **un** cyfnod o tua 100 mlynedd. Lluniwyd yr addasiadau ar gyfer yr uned hon i fod yn rhai cymaradwy heb ystyried pa gyfnod y dewisodd y dysgwr ei astudio o 1.1 i 1.8.

© WJEC CBAC Ltd.

Uned 1.5 – Newid gwleidyddol yn Ewrop tua 1500–1598	
Cysyniadau a safbwyntiau	**Materion allweddol a chynnwys**
Maint bygythiad yr Ymerodraeth Otomanaidd yn yr unfed ganrif ar bymtheg	• teyrnasiad Swleiman Ysblennydd a'r Otomaniaid yn ymledu i ddwyrain Ewrop • Natur ymateb yr Habsbwrgiaid i'r bygythiad Otomanaidd • Effeithiolrwydd Ymateb Ffrainc i'r bygythiad Otomanaidd • Pwysigrwydd Brwydr Lepanto

Uned 1.6 – Ewrop mewn oes o absoliwtiaeth a chwyldro, tua 1682–1815	
Cysyniadau a safbwyntiau	**Materion allweddol a chynnwys**
Arwyddocâd y prif ddatblygiadau yn Rwsia dan Pedr Fawr	• Effaith polisïau cartref Pedr ar gymdeithas, economi a chrefydd • Diwygio ac ehangu'r lluoedd arfog • Dylanwad gorllewineiddio ar Rwsia • Maint y llwyddiant yn y polisi tramor a rhyfel

Uned 1.7 Chwyldro a syniadau newydd yn Ewrop, tua 1780–1881	
Cysyniadau a safbwyntiau	**Materion allweddol a chynnwys**
Arwyddocâd y prif sialensiau oedd yn wynebu Ffrainc 1848-1871	• Chwyldro yn 1848, y coup d'état a sefydlu'r Ail Ymerodraeth • Cymeriad ac amcanion Napoleon III • Effaith polisïau cartref a thramor Napoleon III • Y rhesymau dros gwymp yr Ail Ymerodraeth

Uned 1.8 – Ewrop mewn oes o wrthdaro a chydweithredu, tua 1890–1991	
Cysyniadau a safbwyntiau	**Materion allweddol a chynnwys**
Maint y newid gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd yn yr Almaen 1918-1945	• y prif fygythiadau i sefydlogrwydd Gweriniaeth Weimar yn yr Almaen • Sefydlu unbennaeth yn yr Almaen yn y 1930au • effaith polisïau cartref Natsïaidd ar yr Almaen hyd 1945 • Effeithiolrwydd y gwrthsefyll a'r gwrthwynebu yn yr Almaen Natsïaidd

Sylwer: Oherwydd yr addasiadau hyn hoffem dynnu sylw athrawon a dysgwyr at y posibilrwydd y gall y cyfnodau amser a ddefnyddir ar gyfer y cwestiynau yn adrannau A a B, mewn rhai achosion, fod yn fyrrach na'r hyn a welir fel arfer. Mae hyn yn gwneud iawn am dynnu adrannau o'r gronoleg o'r opsiynau. Ni fydd y newid hwn yn anfanteisio dysgwyr a bydd y cynnwys dangosol yn y cynlluniau marcio yn adlewyrchu'r newidiadau hyn pan fyddant yn digwydd.

Uned 2: Astudiaeth fanwl – rhan un (50% / 20%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

© WJEC CBAC Ltd.

Safon Uwch

Uned 3: Astudiaeth eang (20%)

Bydd Adran A ac Adran B yn cael eu had-drefnu. Tynnir y cwestiynau cyfnod amser byr sy'n gysylltiedig ag Adran A i'w disodli gan gwestiynau ychwanegol yn Adran B am debygrwydd a gwahaniaeth ar draws y cyfnod. Bydd gofyn i ddysgwyr ateb **un** cwestiwn o ddewis o ddau o Thema 1 **ac un** cwestiwn o ddewis o ddau o Thema 2.

Uned 4: Astudiaeth fanwl – rhan dau (20%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 5: yr Asesiad Di-arholiad (20%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Sail resymegol

Ar gyfer Uned 3, bydd yr addasiadau a'u papurau arholiad diwygiedig yn cael eu trosglwyddo o 2021 i 2022. Sail resymegol gwneud hyn o hyd yw y byddai gwneud themâu Uned 3 yn rhai dewisol fwy neu'n lai tynnu pumdeg y cant o'r cynnwys a byddai hynny felly'n effeithio'n negyddol ar uniondeb yr uned. Er enghraifft, byddai dysgwyr sy'n astudio Opsiwn 3, Diwygio a Darganfod: Ewrop tua 1492–1610, naill ai'n astudio newid crefyddol a'i effaith *neu* fforio a darganfod, ac ni fyddai hyn yn rhoi'r ddealltwriaeth angenrheidiol i ddysgwyr o naill ai ddiwygio na darganfod. Yn lle hynny, mae tynnu'r cwestiynau â chyfnod amser byr yn Uned 3 yn lleihau dyfnder y wybodaeth y mae ei hangen fel arfer ar gyfer Adran A, gan olygu bod modd i ddysgwyr ganolbwyntio ar y cwestiynau "tebygrwyddau a gwahaniaethau ar draws y cyfnod" yn Adran B.

Mae llai o bwysau ar y dysgwyr yn yr arholiad o gael dewis o ddau gwestiwn i bob thema gan y gallant ganolbwyntio ar feysydd lle mae ganddynt well gafael ar gwmpas neu gyfyngiadau newid ar draws y cyfnod gosod.

Fel y nodwyd yn flaenorol, ni ellir diwygio Uned 5: dyma'r unig ran o'r cwrs Safon Uwch sy'n ymdrin ag amcan asesu 3. Er bod yr UG yn profi hyn, yn 2022 dim ond y cyfle hwn fydd ar gael i ymgeiswyr Safon Uwch i ddangos eu dawn yn y set sgiliau pwysig hwn i aseswyr sy'n allanol i'w hysgol/coleg.

Fel yn 2021, ni all CBAC newid cynnwys yr astudiaethau manwl (UG Uned 2 a Safon Uwch Uned 4). Mae tynnu adrannau o'r astudiaethau hyn yn golygu bod llai o fanylder yn perthyn iddyn nhw ac nid oes modd felly eu cymhwyso'n gyfartal ar draws yr wyth opsiwn.

© WJEC CBAC Ltd.

Y Gyfraith

UG

Uned 1: Natur y Gyfraith a Systemau Cyfreithiol Cymru a Lloegr (62.5% / 25% o'r cymhwyster)

Symleiddio cynnwys fel na fydd y testunau canlynol yn cael eu hasesu yn 2022:

- O **1.1 Deddfu** – Effaith cyfraith yr Undeb Ewropeaidd ar gyfraith Cymru a Lloegr.
- O **1.7 Personél Cyfreithiol** – Bargyfreithwyr a chyfreithwyr: addysg, hyfforddiant a rôl. Strwythur y proffesiynau cyfreithiol; uno, penodi, hyfforddiant a chefndir cymdeithasol.
- O **1.8 Cyllid Cyfreithiol** – Ffynonellau cyllid: Cymorth Cyfreithiol Sifil. Ffynonellau arian: Cymorth Cyfreithiol Troseddol a Gwasanaethau Amddiffynwyr Cyhoeddus. Ariannu achosion sifil a throseddol, gan gynnwys cynlluniau cynghori a rôl yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, profion teilyngdod, profion modd, meini prawf cymhwyso a blaenoriaethau ar gyfer ariannu. Cytundebau ffi amodol gan gynnwys sut maent yn gweithio, eu manteision a'u hanfanteision.

Uned 2: Cyfraith Camwedd (37.5% / 15% o'r cymhwyster)

Symleiddio cynnwys fel na fydd y testunau canlynol yn cael eu hasesu yn 2022:

- **2.1 Rheolau a damcaniaeth cyfraith camwedd**
- O **2.3 Atebolrwydd Meddianwyr** – Atebolrwydd mewn perthynas â thresmaswyr *(Deddf Atebolrwydd Meddianwyr 1984)*

Safon Uwch

Uned 3: Arfer y Gyfraith Gadarnhaol (30% o'r cymhwyster) <u>AC</u> Uned 4: Safbwyntiau'r Gyfraith Gadarnhaol (30% o'r cymhwyster)

Symleiddio cynnwys fel na fydd y testunau canlynol yn cael eu hasesu yn 2022:

- **Opsiwn hawliau dynol** - o 3.3 - tor-cyfrinachedd, anweddustra a chamweddau tresmasu ac aflonyddu.
- **Opsiwn cyfraith contract** - o 3.7 - Preifatrwydd contract ac o 3.9 - Gorfodaeth economaidd
- **Cyfraith Trosedd** - o 3.15 - Troseddau eiddo, gan gynnwys dwyn a lladrad ac o 3.17 - troseddau ymgais rhagarweiniol

Dim newidiadau i amseriadau, marciau a phwysoli asesiadau naill ai Uned 3 nac Uned 4.

© WJEC CBAC Ltd.

Sail resymegol

Mae'r addasiadau yn gwneud iawn am yr amser a gollwyd o ran addysgu a dysgu ac ar yr un pryd yn sicrhau bod asesiadau'n parhau i fod yn ddilys ar gyfer cymhwyster TAG yn Y Gyfraith.

Sail resymegol symleiddio'r testunau hyn yw:

- maent yn destunau sy'n gweithio'n annibynnol sydd ddim yn effeithio ar gyflwyniad unrhyw destunau eraill
- mae maint yn addasiadau yn gymharol ar draws y dewisiadau.

Sail resymegol yr addasiadau yn Uned 1 ac Uned 2 yw:

- cyfreithwyr a bargyfreithwyr – ni fydd dysgwyr ar eu colled gan ei bod yn debygol y byddant yn astudio ymchwil i'r rhain yn rhan o'r tasgau cyflogadwyedd/ceisiadau UCAS os ydynt am astudio'r gyfraith mewn AU
- cyllid cyfreithiol – mae hwn yn destun sy'n newid yn eithaf aml ac o ystyried y sefyllfa bresennol efallai na fyddai'r wybodaeth ddiweddaraf wedi bod ar gael i ganolfannau mewn perthynas â threfniadau ffioedd amodol
- Cyfraith yr UE – ers Brexit, mae effaith cyfraith yr UE ar gyfraith Cymru a Lloegr yn llai o bwnc trafod ac felly nid yw'n debygol o rwystro dilyniant yn yr astudiaeth o'r gyfraith.

Asesir yr un cynnwys yn Uned 3 ac Uned 4 ond mae'r asesu ei hun yn wahanol. Mae Uned 3 yn asesu AA1 (gwybodaeth) ac AA2 (cymhwyso'r gyfraith at senario) ac Uned 4 yn asesu AA1 (gwybodaeth) ac AA3 (gwerthuso). Mae symleiddio'r testunau hyn felly yn sicrhau bod yr un ymdriniaeth gytbwys â'r amcanion asesu'n bresennol yn y ddau bapur arholiad. Mae canolfannau'n dewis dau allan o dri opsiwn yn yr U2 (Hawliau Dynol, Cyfraith Contract a Chyfraith Trosedd). Gan fod gofyn i ganolfannau ddewis dau allan o'r tri opsiwn hyn rydym wedi symleiddio cynnwys o bob un.

© WJEC CBAC Ltd.

Mathemateg/Mathemateg Bellach

Ni fydd y cynnwys y rhoddir ei fanylion isod yn cael ei asesu yn yr arholiadau TAG Mathemateg a TAG Mathemateg Bellach yn Haf 2022. O ran Mathemateg Bellach, bydd dysgwyr yn astudio Uned 4 a naill ai Uned 5 neu Uned 6.

UG MATHEMATEG

Cynnwys a fydd **DDIM** yn cael ei asesu yn arholiadau Haf 2022.	Sylwadau Ychwanegol
UG Uned 1 – Mathemateg Bur A (62.5% / 25%)	
2.1.2 Algebra a Ffwythiannau	
Deall effaith trawsffurfiadau syml ar graff $y = f(x)$ gan gynnwys braslunio graffiau cysylltiedig: $y = af(x)$, $y = f(x) + a$, $y = f(x + a)$, $y = f(ax)$.	Dim
2.1.6 Ffwythiannau esbonyddol a logarithmau	
Defnyddio graffiau logarithmig i amcangyfrif paramedrau mewn perthnasoedd yn y ffurf $y = ax^n$ ac $y = kb^x$, o gael data ar gyfer x ac y.	Dim
Deall a defnyddio twf a dadfeiliad esbonyddol; ei ddefnyddio wrth fodelu (gallai gynnwys defnyddio e mewn adlog di-dor, dadfeiliad ymbelydrol, dadfeiliad crynodiad cyffur, twf esbonyddol fel model ar gyfer twf poblogaeth.) Ystyried cyfyngiadau mewn modelau esbonyddol a'u mireinio.	Dim
UG Uned 2 – Mathemateg Gymhwysol A (37.5% / 15%)	
2.2.4 Dosraniadau ystadegol	
Deall a defnyddio'r dosraniad **unffurf arwahanol**, fel model. Cyfrifo tebygolrwydd gan ddefnyddio'r dosraniad **unffurf arwahanol**. Adnabod pryd gallai'r model **unffurf arwahanol** fod yn amhriodol.	**Gellid asesu'r** canlynol o adran 2.2.4: Deall a defnyddio'r dosraniad **binomaidd**, fel model, a'r dosraniad **Poisson,** fel model. Cyfrifo tebygolrwydd gan ddefnyddio'r dosraniadau **binomaidd** a **Poisson.** Adnabod pryd gallai'r modelau **binomaidd** neu **Poisson** fod yn amhriodol.
2.2.5 Profi rhagdybiaethau ystadegol	
Dehongli a chyfrifo gwallau Math I a Math II, a gwybod eu hystyr ymarferol.	Dim

© WJEC CBAC Ltd.

2.2.7 Cinemateg	
Deillio'r fformiwlâu ar gyfer cyflymiad cyson mudiant mewn llinell syth.	**Gellid asesu'r** canlynol o adran 2.2.7: **Deall** a **defnyddio**'r fformiwlâu ar gyfer cyflymiad cyson mudiant mewn llinell syth.

SAFON UWCH MATHEMATEG

Cynnwys a fydd **DDIM** yn cael ei asesu yn arholiadau Haf 2022.	
U2 Uned 3 – Mathemateg Bur B (35%)	
2.3.1 Prawf	
Prawf drwy wrthddywediad (gan gynnwys prawf o anghymaroldeb $\sqrt{2}$ ac anfeidredd rhifau cysefin, a chymhwyso at brofion anghyfarwydd).	
2.3.2 Algebra a ffwythiannau	Sylwadau Ychwanegol
Braslunio cromliniau wedi'u diffinio gan fodwlws ffwythiant llinol, gan gynnwys datrys hafaliadau ac anghydraddoldebau sy'n ymwneud â'r ffwythiant modwlws.	Dim
Deall effeithiau cyfuniadau o drawsffurfiadau ar graff $y = f(x)$, fel sy'n cael eu cynrychioli gan $y = af(x)$, $y = f(x) + a$, $y = f(x + a)$ ac $y = f(ax)$.	Dim
Defnyddio ffwythiannau wrth fodelu, gan gynnwys ystyried cyfyngiadau'r modelau a'u mireinio.	Dim
2.3.3 Geometreg gyfesurynnol ym mhlân (X, y)	
Defnyddio hafaliadau parametrig wrth fodelu mewn amrywiaeth o gyd-destunau.	**Gellid asesu'r** canlynol o adran 2.3.2: **Deall** a **defnyddio** hafaliadau parametrig cromliniau a thrawsnewid rhwng ffurfiau Cartesaidd a pharametrig.
2.3.5 Trigonometreg	
Deall a defnyddio brasamcanion ongl fach safonol o sin, cosin a thangiad. $\sin\theta \approx \theta$, $\cos\theta \approx 1 - \frac{\theta^2}{2}$ a $\tan\theta \approx \theta$, lle mae θ mewn radianau.	Dim
2.3.6 Differu	
Differu $\sin x$ a $\cos x$ o egwyddorion sylfaenol.	Dim
Llunio hafaliadau differol syml mewn mathemateg bur.	Dim

© WJEC CBAC Ltd.

2.3.8 Dulliau Rhifiadol
Lleoli gwreiddiau $f(x) = 0$ drwy ystyried newidiadau yn arwydd $f(x)$ mewn cyfwng o x lle mae $f(x)$ yn ymddwyn yn ddigonol o dda. Deall sut gall dulliau newid arwydd fethu. Bras ddatrys hafaliadau gan ddefnyddio dulliau iterus syml; gallu lluniadu diagramau pry cop a diagramau grisiau cysylltiedig. Datrys hafaliadau gan ddefnyddio dull Newton-Raphson a pherthnasoedd dychweliad eraill o'r ffurf $x_{N+1} = g(x_n)$. Deall sut gall dulliau o'r fath fethu. Deall a defnyddio integru ffwythiannau'n rhifiadol, gan gynnwys defnyddio rheol y trapesiwm ac amcangyfrif brasamcan o'r arwynebedd o dan gromlin a'r terfannau y mae'n rhaid iddo orwedd rhyngddynt. Defnyddio dulliau rhifiadol i ddatrys problemau mewn cyd-destun.

U2 Uned 4 – Mathemateg Gymhwysol B (25%)	Sylwadau Ychwanegol
2.4.1 Tebygolrwydd	
Defnyddio diagramau Venn a thablau dwyffordd o ran deall a defnyddio tebygolrwydd amodol.	**Gellid asesu'r** canlynol o adran 2.4.1: Defnyddio **diagramau canghennog** wrth ddeall a defnyddio tebygolrwydd amodol.
2.4.2 Dosraniadau ystadegol	
Cysylltu â phwyntiau ffurfdro a'r dosraniad binomaidd, mewn perthynas â'r dosraniad normal.	**Gellid asesu'r** canlynol o adran 2.4.2: Cysylltu â **histogramau**, **cymedr** a **gwyriad safonol**, mewn perthynas â'r dosraniad normal.
2.4.8 Cinemateg	
Deillio'r fformiwlâu ar gyfer cyflymiad cyson ar gyfer mudiant mewn llinell syth i 2 ddimensiwn gan ddefnyddio fectorau.	**Gellid asesu'r** canlynol o adran 2.4.8: **Ymestyn**, a **defnyddio'r** fformiwlâu ar gyfer cyflymiad cyson ar gyfer mudiant mewn llinell syth i 2 ddimensiwn gan ddefnyddio fectorau.

UG MATHEMATEG BELLACH

Cynnwys a fydd **DDIM** yn cael ei asesu yn arholiadau Haf 2022.	Sylwadau Ychwanegol
UG Uned 1 – Mathemateg Bur Bellach A (33.3% / 13.3%)	
2.1.2 Rhifau Cymhlyg	
Achosion syml o drawsffurfio llinellau a chromliniau wedi'u diffinio gan $w = f(z)$.	Dim
2.1.5 Fectorau Pellach	
Cyfrifo'r pellter perpendicwlar rhwng dwy linell, o bwynt i linell ac o bwynt i blân.	Dim

© WJEC CBAC Ltd.

UG Uned 2 – Ystadegau Pellach A (33.3% / 13.3%)	
2.2.1 Hapnewidynnau a Phroses Poisson	
Deall a defnyddio Poisson fel brasamcan i'r dosraniad binomaidd.	Dim
2.2.2 Archwilio perthnasoedd rhwng newidynnau a llwyddiant y ffit mewn model	
Cyfrifo a dehongli cyfernod cydberthyniad **trefn restrol Spearman**.	**Gellid asesu'r** canlynol o adran 2.2.2: Cyfrifo a dehongli cyfernod cydberthyniad **moment lluoswm Pearson**.
UG Uned 3 – Mecaneg Bellach A (33.3% / 13.3%)	
2.3.3 Mudiant Cylchol	
Deall a defnyddio'r mudiant mewn cylch **fertigol**.	Dim

SAFON UWCH MATHEMATEG BELLACH

Cynnwys a fydd **DDIM** yn cael ei asesu yn arholiadau Haf 2022.	Sylwadau Ychwanegol
U2 Uned 4 – Mathemateg Bur Bellach B (35%)	
2.4.1 Rhifau Cymhlyg	
Defnyddio Theorem de Moivre i ddarganfod symiau cyfresi. Defnyddio anwythiad i brofi Theorem de Moivre ar gyfer gwerthoedd cyfanrifol positif o n.	**Gellid asesu'r** canlynol o adran 2.4.1: Deall Theorem de Moivre a'i ddefnyddio i ddarganfod **fformiwlâu onglau cyfansawdd.**
Defnyddio gwreiddiau cymhlyg undod i ddatrys problemau geometrig.	Dim
2.4.4 Algebra a Ffwythiannau Pellach	
Darganfod cyfres Maclaurin ffwythiant (gan gynnwys y term cyffredinol). Adnabod a defnyddio'r gyfres Maclaurin ar gyfer e^x, $\ln(1+x)$, $\sin x$, $\cos x$ a $(1+x)^n$, a bod yn ymwybodol o'r amrediad o werthoedd x y maent yn ddilys ar eu cyfer.	**Gellid asesu'r** canlynol o adran 2.4.4: Deall a defnyddio ffracsiynau rhannol sydd ag enwaduron yn y ffurf $(ax+b)(cx^2+d)$.
2.4.5 Calcwlws Pellach	
Enrhifo integrynnau afreolaidd, lle naill ai mae'r integrand heb ei ddiffinio ar werth yn yr amrediad integru neu mae'r amrediad integru yn ymestyn hyd at anfeidredd.	Dim
Deall ac enrhifo gwerth cymedrig ffwythiant.	Dim
2.4.6 Cyfesurynnau Pegynlinol	
Darganfod yr arwynebedd sydd wedi'i amgáu gan gromlin begynlinol.	Dim
2.4.8 Hafaliadau Differol	
Darganfod a defnyddio ffactor integru i ddatrys hafaliadau differol o'r ffurf $\frac{\mathrm{dy}}{\mathrm{dx}} + P(x)y = Q(x)$ ac adnabod pryd mae'n briodol gwneud hynny.	Dim

© WJEC CBAC Ltd.

Dadansoddi a dehongli modelau sefyllfaoedd sydd ag un newidyn annibynnol a dau newidyn dibynnol fel pâr o hafaliadau cydamserol trefn un cypledig a gallu eu datrys.	Dim

Cynnwys a fydd **DDIM** yn cael ei asesu yn arholiadau Haf 2022.	Sylwadau Ychwanegol
U2 Uned 5 – Ystadegaeth Bellach B (uned ddewisol) (25%)	
2.5.3 Profi Rhagdybiaethau	
Deall a defnyddio profion ar gyfer (b) y gwahaniaeth rhwng dau gymedr ar gyfer dau ddosraniad normal annibynnol sydd ag amrywiannau hysbys.	Dim
2.5.4 Amcangyfrif	
Deall a defnyddio terfannau hyder ar gyfer (a) cymedr dosraniad normal gydag (ii) amrywiant **anhysbys**.	Dim
U2 Uned 6 – Mecaneg Bellach B (uned ddewisol) (25%)	
2.6.3 Momentau a Chraidd Màs	
Deall a defnyddio craidd màs **gwrthrychau anhyblyg unffurf** a **gwrthrychau cyfansawdd**.	Dim

Sail resymegol

Mae'n anorfod bod cynnwys y TAG Mathemateg yn cydblethu â chynnwys y TAG Mathemateg Bellach. Oherwydd hynny, ystyriwyd yn ofalus wrth ddethol y rhannau penodol o gynnwys fydd ddim yn cael eu hasesu yn yr unedau UG ac U2 Mathemateg yn Haf 2022. Gwneir hyn er mwyn sicrhau nad effeithir yn negyddol ar addysgu a dysgu'r TAG Mathemateg Bellach.

Dewiswyd y cynnwys fydd ddim yn cael ei asesu yn Haf 2022 ar gyfer UG Mathemateg er mwyn sicrhau nad yw'n effeithio ar ddysgu ac addysgu UG Mathemateg Bellach. Gallai'r cymhwyster hwn gael ei addysgu ar yr un pryd â'r UG mathemateg yn 2021-2022 neu'r unedau U2 Mathemateg, os bydd canolfannau'n addysgu'r Safon Uwch lawn mewn Mathemateg yn 2021-2022

O ran yr U2 Mathemateg, rydym wedi gallu adnabod cynnwys o Uned 3 ac Uned 4 fydd ddim yn cael ei asesu yn Haf 2022. Dewiswyd y cynnwys hwn er mwyn sicrhau nad yw'n effeithio ar asesiad yr UG/Safon Uwch Mathemateg Bellach, pe byddai'r naill neu'r llall o'r cymwysterau hyn yn cael ei addysgu ar yr un pryd â'r unedau U2 Mathemateg yn 2021-2022.

O ran yr UG Mathemateg Bellach, dewiswyd y cynnwys fydd ddim yn cael ei asesu yn Haf 2022 fel na fydd yn effeithio'n negyddol ar asesiad yr unedau U2 Mathemateg Bellach, pe byddai canolfannau'n digwydd addysgu'r Safon Uwch lawn mewn Mathemateg Bellach yn 2021-2022.

O ran yr U2 Mathemateg Bellach, rydym wedi gallu adnabod cynnwys o'r tair uned U2 (Unedau 4, 5 a 6) a fydd ddim yn cael ei asesu yn Haf 2022.

Dewiswyd y cynnwys yn yr UG/Safon Uwch Mathemateg a'r UG/Safon Uwch Mathemateg Bellach yn ofalus er mwyn sicrhau bod yr addasiadau'n cadw lefel y galw ac yn cynnal uniondeb yr asesiad, ond yn lleihau'r cynnwys y mae angen ei asesu.

© WJEC CBAC Ltd.

Astudio'r Cyfryngau

UG

Uned 1 (arholiad: 60% o'r UG / 24% o'r Safon Uwch)

Adran A

Does dim astudiaeth o fideo cerddoriaeth. Mae dysgwyr yn astudio hysbysebu mewn print, ar-lein a chlyweled yn unig.

Adran B

Does dim astudiaeth o wefan newyddion o Grŵp 2. Mae dysgwyr yn astudio **un opsiwn o Grŵp 1** (Papur Newydd a'i Fersiwn Ar-lein) ac **un opsiwn o Grŵp 3** (Newyddion Radio Ar-lein) yn unig.

Adran C

Does dim newidiadau i Adran C.

Uned 2 (Asesiad Di-arholiad: 40% o'r UG / 16% o'r Safon Uwch)

1. Bydd CBAC yn derbyn cynyrchiadau cyflawn neu, os bydd problemau o ran cael mynediad at adnoddau arbenigol, cynyrchiadau rhannol gyflawn. Mae'r ddogfen *CBAC Addasiadau UG Astudio'r Cyfryngau 2022* yn cynnwys gwybodaeth bellach.
2. Does dim newidiadau i'r gofynion Ymchwil. Rhaid marcio ymchwil allan o 20 (yn hytrach na 10) gan ddefnyddio'r cynllun marcio diwygiedig a gyhoeddwyd yn nogfen *Addasiadau UG Astudio'r Cyfryngau CBAC 2022.*
3. Does dim asesiad o'r Cynllunio.
4. Mae newidiadau wedi'u gwneud i ofynion y briffiau Cynhyrchu fel a ganlyn:
   - Gwaith sy'n seiliedig ar brint: **dwy** dudalen; o leiaf **tair** delwedd wreiddiol wahanol
   - Clyweledol: **un munud tri deg eiliad – dau funud tri deg eiliad,** a phoster unigol yn cynnwys **o leiaf un ddelwedd wreiddiol** os yw'r gwaith clyweledol yn cael ei gwblhau mewn pâr
   - Ar-lein – y tudalen gartref yn cynnwys prif stori ac **un adroddiad sain neu fideo;** o leiaf **tair** delwedd wreiddiol ac o leiaf **tri chant o eiriau** ar gyfer testun y tudalen gartref
5. Does dim newidiadau i'r Dadansoddi Myfyriol.

U2

Uned 3 (arholiad: 36% o Safon Uwch)

Mae nifer y cynhyrchion gosod a astudir ar gyfer pob adran yn mynd i lawr o dri i **ddau**, fel a ganlyn:

Adran A – mae dysgwyr yn astudio ***Y Gwyll/Hinterland*** ac **un ddrama drosedd (hanesyddol) y DU o'r 1990au.**

Adran B – mae dysgwyr yn astudio **un cylchgrawn cyfoes prif ffrwd ar-lein** ac **un cylchgrawn cyfoes nad yw'n brif ffrwd.**

Adran C – mae dysgwyr yn astudio **un gêm fideo fasnachfraint sy'n seiliedig ar antur** ac **un gêm arall mewn genre arall.**

Uned 4 (Asesiad Di-arholiad: 24% o Safon Uwch)

1. Bydd CBAC yn derbyn cynyrchiadau cyflawn neu, os bydd problemau o ran cael mynediad at adnoddau arbenigol, cynyrchiadau rhannol gyflawn. Mae'r ddogfen *CBAC Addasiadau U2 Astudio'r Cyfryngau 2022* yn cynnwys gwybodaeth bellach.
2. Does dim newidiadau i'r gofynion Ymchwil Ymchwiliol, Amlinelliad Datblygu na Dadansoddi Beirniadol.
3. Does dim asesiad o ail ran y Cynhyrchiad ar gyfer Gwahanol Gyfryngau, dim ond **un** cynnyrch y cyfryngau y mae dysgwyr yn ei greu. Rhaid defnyddio'r cynllun marcio diwygiedig a gyhoeddwyd yn nogfen *Addasiadau U2 Astudio'r Cyfryngau CBAC 2022*.
4. Mae newidiadau wedi'u gwneud i ofynion y briffiau Cynhyrchu fel a ganlyn:
   Briff 1, Opsiynau 1 a 2
   - **un munud tri deg eiliad – dau funud** (unigol)
   - **dau funud - dau funud tri deg eiliad** (pâr)

   Briff 2, Opsiynau 1 a 2
   - **cyfanswm tair tudalen**, yn cynnwys **clawr blaen** ac **erthygl tudalen ddwbl**; o leiaf **5 delwedd wreiddiol wahanol i gyd.**

© WJEC CBAC Ltd.

Sail resymegol

Asesiad Di-arholiad (Uned 2 ac Uned 4)
Mae lleihau hyd/symiau gofynnol y gwaith Cynhyrchu ar gyfer Uned 2 ac Uned 4 yn gwneud iawn am golli amser addysgu a dysgu drwy gydol 2020 a 2021 ac yn lleddfu materion yn ymwneud ag ymbellhau cymdeithasol ar gyfer gwaith ymarferol. Ar yr un pryd, mae'n galluogi dysgwyr i ymgymryd â'r gwaith hwn ac i gael eu hasesu arno fel rhan allweddol o gymhwyster Astudio'r Cyfryngau sy'n bwysig ar gyfer dilyniant. Ar gyfer Uned 2, nid asesir Cynllunio ychwaith er mwyn rhoi mwy o amser i ddatblygu sgiliau cynhyrchu. Yn yr un modd, ar gyfer Uned 4, bydd tynnu'r gofyniad ar gyfer gwahanol gyfryngau yn caniatáu mwy o ganolbwyntio ar yr un cynhyrchiad i'w gwblhau a'r sgiliau cysylltiedig. Yn yr UG a'r U2, mae dewisiadau cynhyrchu wedi'u cwblhau'n rhannol ar gael fel cynllun wrth gefn os bydd problemau o ran mynediad i adnoddau arbenigol. Drwy leihau'r gofynion Asesu Di-arholiad, cynhelir safon a lefel y galw yn y cymhwyster, gan nad yw newidiadau i'r Asesu di-arholiad yn effeithio ar gynnwys nac asesiad y cymhwyster, yr ymdriniaeth â'r Amcanion Asesu, na'r pwysoli. Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad bod y dull hwn o ymwneud â'r Asesiad Di-arholiad yn ateb ei fwriad.

Uned 1
Ar gyfer Adran A, mae astudio hysbysebu yn unig yn sicrhau bod angen ymdrin ag amrywiaeth eang o gynnwys o hyd yn nhermau hysbysebu masnachol, elusennol a gwybodaeth i'r cyhoedd mewn ffurfiau print, clyweledol ac ar-lein, gan gynnwys enghreifftiau cyfoes a hanesyddol.

Yn Adran B, mae dysgwyr yn parhau i astudio papur newydd a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar-lein yn rhan o'u hymdriniaeth â newyddion ar-lein ar gyfer Grŵp 1. Oherwydd hynny, tynnir y gofyniad i astudio gwefan newyddion o Grŵp 2. Mae hyn hefyd yn cynnal yr astudiaeth o radio yn y cymhwyster.

Nid yw'n bosibl tynnu'r naill gynnyrch gosod na'r llall ar gyfer Adran C gan eu bod ill dau yn hollbwysig i'r hyn y mae'r adran hon yn canolbwyntio arno. Yma, mae'r cynnwys yn cynnwys cysyniadau allweddol fel genre a naratif, sy'n cysylltu'n anorfod ag astudio diwydiant a chynulleidfa. Maent hefyd yn bwysig o ran symud ymlaen i'r U2 ac astudio'r genre drama drosedd. Nid addaswyd yr adran hon felly.

Uned 3
Yn yr uned hon, mae dysgwyr yn astudio pob maes o'r fframwaith cysyniadau i bob adran gan yr astudir y ffurfiau perthynol yn fanwl ar gyfer U2. Er mwyn lleihau'r cynnwys, yr hyn sydd fwyaf priodol felly yw lleihau nifer y cynhyrchion gosod a astudir ar gyfer pob adran o dri i ddau. Mae hyn yn cynnal manylder yr astudiaeth, gan leihau swm y cynnwys i'w astudio ar yr un pryd. Cadwyd cwestiynau dewisol ym mhob adran mewn ymateb i adborth yr ymgynghoriad ac i gynnal asesiad sy'n gyfarwydd i athrawon a dysgwyr.

Nid yw'r newidiadau hyn yn effeithio ar gynnwys allweddol y cymhwyster, yr ymdriniaeth â'r Amcanion Asesu, na'r pwysoli. Oherwydd hynny, mae'r newidiadau hyn i'r unedau a arholir yn cynnal safon a lefel y galw yn y cymhwyster. Felly bydd yr addasiadau yn caniatáu i ddysgwyr symud ymlaen i Safon Uwch / AU yn y pwnc hwn. Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebion i'r arolwg â hyn ac ni chafwyd unrhyw anghytundeb.

© WJEC CBAC Ltd.

Cerddoriaeth

UG

Uned 1: Perfformio – 30% o'r UG, 12% o'r Safon Uwch

Byddwn yn lleihau'r amser perfformio o 6-8 munud i isafswm o 4 munud. Caiff y siart cosbau amser ei addasu ar gyfer 2022. Tynnu'r gofyniad i un o'r darnau gysylltu â maes astudio. Gall dysgwyr sy'n cynllunio i wneud datganiad hirach (gan gadw i'r amseriadau arferol) gyflwyno hwn o hyd. Does dim cosb am fynd dros yr amser gofynnol.

Uned 2: Cyfansoddi – 30% o'r UG, 12% o'r Safon Uwch

Byddwn yn lleihau nifer y cyfansoddiadau o 2 i 1. Cyfansoddiad rhydd fydd hwn. Gall dysgwyr ddewis ysgrifennu yn Arddull Glasurol y Gorllewin ond nid yw hyn yn orfodol.

Uned 3: Arfarnu – 40% o'r UG, 16% o'r Safon Uwch

Bydd gwybodaeth ymlaen llaw sy'n rhoi ffocws i'r hyn y bydd yr arholiad yn ei gynnwys yn cael ei rhyddhau ar 7 Chwefror 2022. Edrychwch ar y wybodaeth bellach ar dudalen haf 2022 y pwnc TAG Cerddoriaeth ar y wefan.

Safon Uwch

Uned 4: Perfformio – Opsiwn A 22% neu Opsiwn B 14%

Byddwn yn lleihau'r amser perfformio o 10-12 munud i 8 ½ - 10 munud (opsiwn A) ac o 6-8 munud i 5-7 munud (opsiwn B). Caiff y siart cosbau amser ei addasu ar gyfer 2022. Tynnu'r gofyniad i un o'r darnau gysylltu â maes astudio. Gall dysgwyr sy'n cynllunio i wneud datganiad hirach (gan gadw i'r amseriadau arferol) gyflwyno hwn o hyd. Does dim cosb am fynd dros yr amser gofynnol.

Uned 5: Cyfansoddi – Opsiwn A 14% neu Opsiwn B 22%

Opsiwn A: Lleihau nifer y cyfansoddiadau o 2 i 1. Cyfansoddiad rhydd fydd hwn. Gall dysgwyr ddewis ysgrifennu yn Arddull Glasurol y Gorllewin ond nid yw hyn yn orfodol.

Opsiwn B: Lleihau nifer y cyfansoddiadau o 3 i 2. Dylai un fod yn arddull Glasurol y Gorllewin, a dylai'r llall fod yn gyfansoddiad rhydd.

Uned 6: Arfarnu – 24%

Ni chynigiwyd gwneud unrhyw newidiadau i'r uned hon yn wreiddiol. Fodd bynnag, ar ôl ystyried safbwyntiau'r athrawon, bydd un o'r ddau waith gosod atodol yn Uned 6 Maes Astudio Dd Llinynnau 1 a 2 yn cael ei dynnu yn 2022 yn unig. O ganlyniad, bydd y cwestiwn 10 marc ar ddiwedd Cw1 a Cw2 ond yn cyfeirio at y prif waith gosod ac un gwaith gosod atodol. Ni fydd hyn yn arwain at newid o ran dyraniad marciau AA3 ac AA4.

Y gweithiau atodol a dynnir fydd:

Llinyn 1: Argraffiadaeth – ***Colloque Sentimental, Llais a phiano:*** Debussy

Llinyn 2: Cerddoriaeth Siambr yng Nghymru – ***Tango Passacaglia, Ffliwt a Phiano:*** Wilson-Dickson

Y gwaith atodol a gedwir i'w asesu yn 2022 yw:

Llinyn 1: Argraffiadaeth – ***Mother Goose, Prelude:*** Ravel

Llinyn 2: Cerddoriaeth Siambr yng Nghymru – ***Ariel, Ffliwt a Phiano:*** Samuel

Yn ogystal, bydd rhybudd ymlaen llaw ynghylch testun y cwestiwn ateb hirach yn Llinynnau 3, 4 a 5.

© WJEC CBAC Ltd.

Sail resymegol

Bydd lleihau hyd gofynnol perfformiad yn yr UG a'r U2 a thynnu'r gofyniad i gysylltu â maes astudio yn rhoi peth ystyriaeth i unrhyw amser tiwtora unigol a gollwyd mewn cyfnod pryd y gellid bod yn archwilio repertoire.

Drwy ofyn am un cyfansoddiad yn llai ar lefel UG a Safon Uwch (y ddau ddewis) cydnabyddir bod dysgwyr wedi colli amser dysgu ar gyfer technegau cyfansoddi (yn ystod Cyfnod Allweddol 4 ar gyfer dysgwyr UG ac yn ystod blwyddyn gyntaf yr astudiaeth ar gyfer dysgwyr Safon Uwch). Mae llai o gyfarpar cyfansoddi a meddalwedd wedi bod ar gael iddynt hefyd sy'n golygu eu bod wedi cael llai o ymarfer ar y rhain. Gall canolfannau ddewis argymell i'w dysgwyr eu bod yn cyfansoddi yn Arddull Glasurol y Gorllewin os bydd hyn yn ategu'r hyn a addysgwyd ac a ddysgwyd ganddynt yn yr unedau eraill.

Gan ystyried y safbwyntiau a fynegwyd gan athrawon, tynnir un o'r ddau waith gosod ategol yn Uned 6 Meysydd Astudio Dd Llinynnau 1 a 2 yn 2022 yn unig. O ganlyniad, bydd y cwestiwn 10 marc ar ddiwedd Cw1 a Cw2 ond yn cyfeirio at y prif waith gosod ac un gwaith gosod atodol. Ni fydd hyn yn arwain at newid o ran dyraniad marciau AA3 ac AA4. Y gweithiau atodol a dynnir fydd:

Llinyn 1: Argraffiadaeth – ***Colloque Sentimental, Llais a phiano:*** Debussy

Llinyn 2: Cerddoriaeth Siambr yng Nghymru – ***Tango Passacaglia, Ffliwt a Phiano:*** Wilson-Dickson

Y gwaith atodol a gedwir i'w asesu yn 2022 yw:

Llinyn 1: Argraffiadaeth – ***Mother Goose, Prelude:*** Ravel

Llinyn 2: Cerddoriaeth Siambr yng Nghymru – ***Ariel, Ffliwt a Phiano:*** Samuel

Yn ogystal, cyhoeddir rhybudd ymlaen llaw ym mis Medi 2021 ynghylch testun y cwestiwn ateb hirach yn Llinynnau 3, 4 a 5.

O ran y cwestiwn yn holi a ddylid cyflwyno asesiad o bell yn lle ymweliadau gan arholwyr, penderfynwyd y byddem yn ymgysylltu ymhellach â'r canolfannau ynghylch hyn ar ddechrau Medi ac yn cyfathrebu'r trefniadau erbyn diwedd mis Medi.

© WJEC CBAC Ltd.

Addysg Gorfforol

UG

Uned 1: Archwilio addysg gorfforol (arholiad ysgrifenedig) 60% o'r UG, 24% o'r Safon Uwch

Bydd gwybodaeth ymlaen llaw sy'n rhoi ffocws i'r hyn y bydd yr arholiad yn ei gynnwys yn cael ei rhyddhau ar 7 Chwefror 2022. Edrychwch ar y wybodaeth bellach ar dudalen haf 2022 y pwnc TAG Addysg Gorfforol ar y wefan.

Uned 2: Gwella perfformiad personol mewn addysg gorfforol (Asesiad Di-arholiad) 40% o'r UG, 16% o'r Safon Uwch

Tynnir y gofyniad i hyfforddi/dyfarnu o'r uned.

Yn yr ymgynghoriad, cynigiwyd y byddem yn cynnal y cymedroli drwy ddefnyddio tystiolaeth fideo yn 2022.

Safon Uwch

Uned 3: Gwerthuso addysg gorfforol (Arholiad ysgrifenedig) 36% o'r Safon Uwch

Bydd gwybodaeth ymlaen llaw sy'n rhoi ffocws i'r hyn y bydd yr arholiad yn ei gynnwys yn cael ei rhyddhau ar 7 Chwefror 2022. Edrychwch ar y wybodaeth bellach ar dudalen haf 2022 y pwnc TAG Addysg Gorfforol ar y wefan.

Uned 4: Mireinio perfformiad personol mewn addysg gorfforol (Asesiad Di-arholiad) 24% o'r Safon Uwch

Asesir dwy adran gyntaf y Project Ymchwil Ymchwiliol yn unig: *Cwblhau dadansoddiad cychwynnol o berfformiad personol gan nodi ymchwil sy'n briodol i helpu i wella perfformiad* a *Gwerthuso'r ymchwil, gan gynnwys data, i wneud argymhellion a llunio cynllun i wella perfformiad.*

Yn yr ymgynghoriad, cynigiwyd y byddem yn cynnal y cymedroli drwy ddefnyddio tystiolaeth fideo yn 2022.

***Asesiad Di-arholiad Uned 2 ac Uned 4**

Bydd y dystiolaeth a ddewisir ar gyfer dysgwyr/gweithgareddau i'w cymedroli yn ystyried yr addasiadau arfaethedig:

- gallai sgiliau/driliau/gweithgareddau wedi'u haddasu/cynhyrchu yn ogystal â thystiolaeth ategol arall fod yn dystiolaeth a fyddai'n helpu i gyfiawnhau'r marciau a ddyfarnwyd
- rhaid i'r dystiolaeth ddangos nodweddion y marciau a ddyfarnwyd hyd yn oed os nad yw'r gweithgaredd cystadleuol gyda thimau llawn yn amlwg o bosibl.

Sail resymegol

Bydd angen i dystiolaeth o'r cymedroli ddangos y nodweddion a nodwyd ym mandiau marciau'r meini prawf asesu, ond ddim y gweithgaredd yn llawn. Drwy wneud hyn dylai fod modd i ddysgwyr a chanolfannau gynhyrchu tystiolaeth ac asesu perfformiad heb fod angen gweithgareddau llawn.

Bydd yr addasiad i Uned 2, sef tynnu'r gofyniad i hyfforddi/dyfarnu yn cefnogi dysgwyr ac yn lliniaru'r materion sy'n ymwneud â chadw pellter cymdeithasol a mynediad at gyfleoedd, gan gynnal uniondeb yr uned ar yr un pryd.

Bydd yr addasiad i Uned 4, sef tynnu'r rhaglen hyfforddi a'i werthusiad o'r Project Ymchwil Ymchwiliol, yn gwneud iawn am yr amser addysgu a dysgu a gollwyd ac yn cefnogi dysgwyr nad ydynt efallai wedi cynhyrchu gwaith tebyg ar lefel TGAU ac UG. Dylai defnyddio'r dull hwn leddfu materion yn ymwneud ag ymbellhau cymdeithasol a chael mynediad at gyfleusterau. Nid yw'n bosibl gwneud rhagor o ran lliniaru heb gyfaddawdu uniondeb y cymhwyster TAG. Mae'r

© WJEC CBAC Ltd.

addasiad hwn yn cadw lefel y galw ac yn cynnal uniondeb yr asesiad ond yn lleihau'r baich asesu yn sylweddol.

O ran y cwestiwn yn holi a ddylid cyflwyno cymedroli o bell gan ddefnyddio tystiolaeth fideo/ffotograffig, penderfynwyd y byddem yn ymgysylltu ymhellach â'r canolfannau am hyn ar ddechrau mis Medi ac yn cyfathrebu'r trefniadau erbyn diwedd mis Medi.

© WJEC CBAC Ltd.

Seicoleg

UG

Uned 1: Seicoleg: **O'r Gorffennol i'r Presennol (50% / 20%)**

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 2: Seicoleg: Defnyddio Cysyniadau Seicolegol (50% / 20%)

Tynnir 'Adran A – Dadleuon Cyfoes' o bapur Uned 2.

Safon Uwch

Uned 3: Seicoleg: Goblygiadau yn y Byd Real (40%)

Yn 'Adran A: Astudio ymddygiadau' – gofynnir i ddysgwyr *'Ateb* **dau** *gwestiwn yn llawn'* yn hytrach nag *'Ateb* ***tri*** *chwestiwn yn llawn'.*

Uned 4: Seicoleg: Dulliau Ymchwil Cymhwysol (20%)

